

Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru) Adroddiad Cyfnod 1

Rhagfyr 2025



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddEconomi

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddEconomi@senedd.cymru**
X: **@SeneddEconomi**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2025**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru) Adroddiad Cyfnod 1

Rhagfyr 2025



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddEconomi

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Cadeirydd y Pwyllgor:
Andrew RT Davies AS
Ceidwadwyr Cymreig



Hannah Blythyn AS
Llafur Cymru



Alun Davies AS
Llafur Cymru



Luke Fletcher AS
Plaid Cymru



Samuel Kurtz AS
Ceidwadwyr Cymreig



Jenny Rathbone AS
Llafur Cymru

Mynychodd yr Aelod a ganlyn fel dirprwy yn ystod gwaith craffu ar y Bil.



Julie Morgan AS
Llafur Cymru

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd.....	7
Casgliad ac argymhellion	9
1. Cyflwyniad	12
Dull gweithredu'r Pwyllgor.....	12
Cefndir	12
Cylch gorchwyl	13
Casglu tystiolaeth.....	13
Amserlen ar gyfer craffu.....	14
Trafodaethau pwyllgorau eraill ar y Bil.....	15
Ein barn ni.....	15
2. Cefndir a chyd-destun	17
Diben y Bil a'r effaith y bwriedir iddo ei chael.....	17
Cefndir y Bil.....	18
Y cyd-destun polisi:	19
Trosolwg o'r Bil.....	20
3. Egwyddorion cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth	22
Egwyddorion cyffredinol y Bil	22
Yr angen am ddeddfwriaeth.....	25
Sylfaen dystiolaeth ac amseriad y Bil	27
Trwyddedu mewn gwledydd eraill	32
Canlyniadau anfwriadol	34
Is-ddeddfwriaeth	36
Goblygiadau ariannol.....	38

Y goblygiadau o ran hawliau dynol	40
Adolygiad ôl-weithredu	41
Ein barn ni.....	42
Egwyddorion cyffredinol y Bil	42
Sylfaen dystiolaeth ac amseriad y Bil	43
Is-ddeddfwriaeth	44
Goblygiadau ariannol	45
Y goblygiadau o ran hawliau dynol	45
Adolygiad ôl-weithredu	48
4. Datblygu Twristiaeth	49
Cod ymarfer ar dwristiaeth.....	50
Ein barn ni.....	50
5. Rheoleiddio llety ymwelwyr.....	52
Ystyr llety ymwelwyr rheoleiddiedig	52
Ffitrwydd Darparwyr llety ymwelwyr	54
Ystyr ffitrwydd i fod yn llety ymwelwyr	54
Ffitrwydd i fod yn llety ymwelwyr: safon gyffredinol	55
Addasrwydd i fod yn llety ymwelwyr – safonau penodol	57
Trwyddedu	60
Hyfforddiant ar gyfer darparwyr llety ymwelwyr	62
Ceisiadau am drwydded: gweithdrefn.....	64
Trwyddedau: dod i ben ac adnewyddu	68
Gorfodi	70
Pŵer i wneud gwybodaeth yn ofynnol	71
Mynd i mewn i fangre a'i harchwilio at ddibenion gorfodi.....	71
Troseddau	74
Ffioedd mewn perthynas â thrwyddedau llety ymwelwyr	75

Pwerau i rannu gwybodaeth	77
Telerau contract.....	78
Ein barn ni.....	80
Diffiniad o lety ymwelwyr	80
Ffitrwydd i fod yn llety ymwelwyr.....	80
Trwyddedu: gweithdrefn a gofynion i gwblhau hyfforddiant	82
Gorfodi	83
Ffioedd.....	84
Telerau contract.....	85
6. Darparu gwybodaeth i'r cyhoedd am lety ymwelwyr	86
Cyfeiriadur o lety ymwelwyr	86
Hysbysebu a marchnata	87
Ein barn ni.....	91
Cyfeiriadur o lety ymwelwyr	91
Hysbysebu a marchnata	91
7. Materion pellach	92
Ein barn ni.....	93
Atodiad 1 : Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar	94
Atodiad 2 : Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig	96
Gwybodaeth ychwanegol.....	97

Rhagair y Cadeirydd

Mae'r Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru) yn cynrychioli ymyrraeth ddiweddaraf Llywodraeth Cymru yn y sector twristiaeth. Mae'n adeiladu ar y fframwaith cofrestru darparwyr llety ymwelwyr yn Neddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 drwy gyflwyno cynllun trwyddedu ar gyfer llety ymwelwyr yng Nghymru.

Drwy gydol ein gwaith craffu, canfuom fod cefnogaeth eang i egwyddorion cyffredinol y Bil, yn enwedig ei fwriad i godi safonau, gwella diogelwch, a chreu maes chwarae mwy cyfartal i ddarparwyr llety ymwelwyr.

Fodd bynnag, clywsom bryderon cryf hefyd ynghylch amseriad cyflwyno'r Bil a manylion y modd y caiff ei weithredu. Cyfyngwyd ar ein cyfle i ymgynghori'n drylwyr a chasglu tystiolaeth yn sgil yr amserlen gyflymach ar gyfer gwaith craffu Cyfnod 1. Rydym yn gresynu at y cyfyngiadau a osodwyd gan yr amserlen hon ac yn rhybuddio yn erbyn prosesau deddfwriaethol mor gywasgedig yn cael eu normaleiddio ar gyfer deddfwriaeth nad yw'n ddeddfwriaeth frys yn y dyfodol.

Thema a gododd dro ar ôl tro yn ein tystiolaeth oedd yr angen am ddata cadarn i ategu penderfyniadau polisi. Cydnabuwyd yn eang nad oedd gwybodaeth ddibynadwy am faint a nodweddion y sector, gan gynnwys gan Lywodraeth Cymru. Mae'n hanfodol bod penderfyniadau yn y dyfodol yn cael eu llywio gan ddata cynhwysfawr a deialog barhaus gyda'r sector.

Rydym hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd canllawiau clir, ymarferol a rheoleiddio cymesur. Bydd llwyddiant y Bil yn dibynnu ar weithredu effeithiol ac ymgynghori ystyrlon ar reoliadau yn y dyfodol a wneir o dan y pwerau a gynigir yn y Bil. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi rhagor o eglurder ar agweddau allweddol y Bil, gan gynnwys trefniadau gorfodi, gofynion hyfforddi, a'r broses gwyno, ac i sicrhau bod lleisiau darparwyr, awdurdodau lleol, a rhanddeiliaid eraill yn cael eu clywed ym mhob cyfnod.

Mae twristiaeth yn rhan hanfodol o economi Cymru. Mae gan y Bil hwn, ynghyd â Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025, y potensial i gryfhau'r sector, gwella hyder ymwelwyr, a chefnogi cymunedau cynaliadwy. Fodd bynnag, rydym yn parhau i fod yn ymwybodol o'r blinder deddfwriaeth a pholisi a deimlir gan dystion o ganlyniad i newidiadau a gyflwynwyd yn ystod tymor y Senedd hon.

Mae'r Pwyllgor yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil, gan wneud cyfres o argymhellion i sicrhau bod ei weithrediad yn deg, yn effeithiol, ac yn ymatebol i anghenion pawb y bydd yn effeithio arnynt.

Hoffwn ddiolch i bawb a gyfrannodd at ein gwaith craffu, yn enwedig o ystyried yr amserlen heriol. Mae eich mewnwelediadau wedi bod yn amhrisiadwy wrth helpu i lunio ein casgliadau a'n hargymhellion.

A handwritten signature in black ink that reads "Andrew RT Davies". The signature is written in a cursive, slightly informal style.

Andrew RT Davies MS

Cadeirydd

Casgliad ac argymhellion

Casgliad 1. Mae'r Pwyllgor yn gresynu at yr amserlen fer a neilltuwyd ar gyfer craffu Cyfnod 1 ar egwyddorion cyffredinol Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru), a'r effaith negyddol y mae hyn wedi'i chael ar allu rhanddeiliaid i gyfrannu at y broses.....Tudalen 16

Argymhelliad 1. Ni ddylai Seneddau a llywodraethau yn y dyfodol gymryd yr amserlen a roddwyd i'r Bil hwn fel cynsail ar gyfer gwneud a chraffu ar ddeddfwriaeth nad yw'n ddeddfwriaeth frys. Dylid osgoi amserlen mor fyr oni bai bod amgylchiadau eithriadol yn mynnu fel arall.....Tudalen 16

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Senedd, gan ystyried yr argymhellion yn yr adroddiad hwn, yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru).....Tudalen 43

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio'r Bil yng Nghyfnod 2 i wneud cychwyn y cynllun trwyddedu yn amodol ar gymeradwyaeth bellach gan y Senedd.....Tudalen 43

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio'r Bil yng Nghyfnod 2 i sicrhau y gall darpariaethau'r Bil gael eu cychwyn erbyn diwedd y tymor Senedd nesaf a drefnwyd.Tudalen 43

Argymhelliad 5. Yn ei ymateb i'r adroddiad hwn, dylai Ysgrifennydd y Cabinet nodi pa drafodaethau sydd wedi digwydd, ac sydd yn yr arfaeth, gyda chynrychiolwyr y diwydiant twristiaeth ar gynigion ar gyfer gweithredu'r Bil.Tudalen 44

Argymhelliad 6. Cyn y ddadl Cyfnod 1, dylai Ysgrifennydd y Cabinet nodi pa welliannau y mae'n bwriadu eu cyflwyno yng Nghyfnod 2.Tudalen 44

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio'r Bil yng Nghyfnod 2 i ymrwymo i gynnal a chyhoeddi adolygiad o weithrediad ac effaith y darpariaethau yn y Bil erbyn mis Ebrill 2034 fan bellaf.....Tudalen 48

Argymhelliad 8. Wrth ymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru nodi pa waith a wnaed hyd yma ar ddatblygu'r cod ymarfer a'r canllawiau cysylltiedig. Ar ben hynny, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o fanylion am gynnwys disgwyliedig y cod.Tudalen 51

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried diwygio'r Bil yng Nghyfnod 2 i sicrhau cyfnod o amser gofynnol priodol i'r Senedd ystyried rheoliadau a gynigir o dan adran 5.....Tudalen 80

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod canllawiau a gyhoeddir o dan adran 55 yn mynd i'r afael â rhwymedigaethau darparwyr llety ymwelwyr mewn perthynas â'r safon cyffredinol o ran ffitrwydd yn adran 7.Tudalen 81

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru fynd i'r afael â materion rheoli gwastraff ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ei chod ymarfer, er mwyn sicrhau bod gweithredwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac, ar ben hynny, dylai ddiwygio'r Memorandwm Esboniadol i nodi rhwymedigaethau presennol y trwyddedai mewn perthynas â gwaredu gwastraff ymwelwyr.....Tudalen 81

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cynnwys tystysgrifau perfformiad ynni fel safon ychwanegol wrth archwilio diweddariadau i'r cynllun trwyddedu yn y dyfodol.Tudalen 81

Argymhelliad 13. Cyn y ddadl Cyfnod 1, dylai Ysgrifennydd y Cabinet gadarnhau a yw'n bwriadu cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 mewn perthynas â'r safon atal tân arfaethedig yn adran 9.Tudalen 81

Argymhelliad 14. Dylai Awdurdod Cyllid Cymru ymrwymo i ddarparu diweddariadau rheolaidd ar ei waith mewn perthynas â'r gofrestr a'r cynllun trwyddedu i bwyllgor perthnasol yn y Senedd nesaf.Tudalen 83

Argymhelliad 15. Cyn y ddadl Cyfnod 1, dylai Ysgrifennydd y Cabinet adolygu'r dystiolaeth ychwanegol a ddarparwyd gan y Gymdeithas Llety Tymor Byr a chadarnhau nifer cyfartalog y trwyddedau ar y cyfan y mae Rhentu Doeth Cymru'n ymdrin â hwy bob blwyddyn a'r amser a gymer i brosesu ceisiadau ar hyn o bryd. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet nodi hefyd unrhyw amcangyfrif a wnaed ganddo o'r amser y bydd yn ei gymryd i brosesu a dyroddi'r 30,000 o drwyddedau llety ymwelwyr, yn ôl yr amcangyfrif, y bydd angen eu dyroddi ym mlwyddyn gyntaf gweithredu'r cynllun trwyddedu.....Tudalen 83

Argymhelliad 16. Dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio'r Bil yng Nghyfnod 2 i estyn y cyfnod gofynnol y gellir rhoi trwydded llety ymwelwyr ar ei gyfer.Tudalen 83

Argymhelliad 17. Cyn y ddadl Cyfnod 1, dylai Ysgrifennydd y Cabinet ddarparu rhagor o wybodaeth i'r Senedd ynghylch sut y disgwylir i'r ddarpariaeth ar gyfer cwynion yn adran 22 weithio'n ymarferol, gan gynnwys sut y bydd cwynion yn cael eu hasesu a beth fydd yr effaith ymarferol pe bai cwyn yn cael ei chadarnhau.Tudalen 83

Argymhelliad 18. Cyn y ddadl Cyfnod 1, dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am drafodaethau gydag awdurdodau lleol ynghylch eu rôl bosibl yn y broses orfodi, ac egluro'r rôl bosibl y gallai Croeso Cymru ei chwarae.Tudalen 84

Argymhelliad 19. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant i'r Bil yng Nghyfnod 2 i ddarparu y bydd y rheoliadau a wneir o dan adran 38 yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd.Tudalen 85

Argymhelliad 20. Cyn y ddadl Cyfnod 1, dylai Llywodraeth Cymru nodi'n fanylach sut y bwriedir i'r ddarpariaeth yn adran 42 weithio'n ymarferol, gan gynnwys ei chyfiawnhad dros gynnwys 42(4).Tudalen 85

Argymhelliad 21. Cyn y ddadl Cyfnod 1, dylai Ysgrifennydd y Cabinet:

- ddarparu diweddariad am drafodaethau gyda phlatfformau/asiantau archebu ynghylch y darpariaethau yn adrannau 46 a 47,
 - darparu rhagor o wybodaeth am y rhesymeg dros estyn y drosedd arfaethedig i gyrff heblaw darparwyr llety ymwelwyr, a
 - darparu rhagor o wybodaeth am y camau penodol y gallai fod angen eu cymryd i gadarnhau amddiffyniad i'r trosedd arfaethedig.
-Tudalen 91

Argymhelliad 22. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyflwyno gwelliant i'r Bil yng Nghyfnod 2 i gyfyngu cwmpas y drosedd hysbysebu a marchnata yn adran 47 i ddarparwyr llety ymwelwyr yn unig.Tudalen 91

Argymhelliad 23. Cyn y ddadl Cyfnod 1, dylai Ysgrifennydd y Cabinet ymateb i'r dystiolaeth ychwanegol benodol a gafodd y Pwyllgor.Tudalen 93

1. Cyflwyniad

Cyflwynwyd Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru) ("y Bil") ar 3 Tachwedd 2025 ac fe'i cyfeiriwyd at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig er mwyn iddo graffu ar ei egwyddorion cyffredinol.

1. Ar 3 Tachwedd 2025, cyflwynodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, Mark Drakeford AS ("Ysgrifennydd y Cabinet"), y Bil¹ a Memorandwm Esboniadol cysylltiedig ("y Memorandwm Esboniadol").² Cyhoeddwyd Datganiad o Fwriad Polisi ar gyfer y Bil hefyd.³
2. Yn unol â Rheol Sefydlog 26.9, fe wnaeth Pwyllgor Busnes y Senedd gyfeirio'r Bil at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ("y Pwyllgor") er mwyn iddo ystyried yr egwyddorion cyffredinol (Cyfnod 1). Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad erbyn 19 Rhagfyr 2025.⁴

Dull gweithredu'r Pwyllgor

Cefndir

3. Ar 6 Hydref 2025, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fersiwn ddrafft o'r Bil.⁵ Rhannodd Llywodraeth Cymru fersiwn ddrafft o'r Memorandwm Esboniadol gyda'r Pwyllgor a chyda rhanddeiliaid dethol hefyd.
4. Yng ngoleuni'r wybodaeth a rannwyd gan Lywodraeth Cymru, llwyddodd y Pwyllgor i gytuno dros dro ar ei ddull craffu cyn cyflwyno'r Bil yn ffurfiol.

¹ Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru), fel y'i cyflwynwyd

² Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru), Memorandwm Esboniadol

³ Datganiad o Fwriad Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth, Tachwedd 2025

⁴ Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru), Tachwedd 2025

⁵ Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru), Hydref 2025

Cylch gorchwyl

5. Ar 22 Hydref 2025, cytunodd y Pwyllgor y byddai'n defnyddio'r fframwaith a ganlyn wrth graffu ar egwyddorion cyffredinol y Bil, i ystyried:

- egwyddorion cyffredinol y Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru) ac a oes angen deddfwriaeth i gyflawni'r amcanion polisi a nodir yn y Bil;
- darpariaethau'r Bil, gan gynnwys a ydynt yn ymarferol ac a fyddant yn cyflawni'r bwriad polisi a nodwyd;
- unrhyw rwystrau posibl rhag gweithredu darpariaethau'r Bil;
- a oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil;
- asesiad Llywodraeth Cymru o effeithiau ariannol ac effeithiau eraill y Bil fel y'u nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol; a
- phriodoldeb y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (fel y nodir yn Rhan 1: Pennod 5 o'r Memorandwm Esboniadol).

Casglu tystiolaeth

6. Oherwydd yr amser cyfyngedig ar gyfer craffu, dim ond ymgynghoriad cyhoeddus pythefnos y llwyddodd y Pwyllgor i'w gynnal, a gynhaliwyd rhwng 3 Tachwedd 2025 a 17 Tachwedd 2025. Roedd yr ymgynghoriad yn seiliedig ar y cylch gorchwyl y cytunwyd arno a derbyniodd 34 o ymatebion. Cafodd y Pwyllgor sesiwn frifffio dechnegol gan swyddogion Llywodraeth Cymru ar 22 Hydref 2025.

7. Cynhaliodd y Pwyllgor sesiynau tystiolaeth lafar gydag Ysgrifennydd y Cabinet ar 5 Tachwedd 2025 a 20 Tachwedd 2025.⁶ Cynhaliodd y Pwyllgor gyfres o saith sesiwn dystiolaeth gyda rhanddeiliaid allanol rhwng y dyddiadau hynny hefyd, a chymerodd ran mewn gohebiaeth dargededig â sawl sefydliad. Gellir gweld rhestr lawn o sesiynau tystiolaeth lafar yn Atodiad A, ac mae rhestr o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol i'w gweld yn Atodiad B.

⁶ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion; Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion

8. Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar i bawb a gymerodd yr amser i ddarparu tystiolaeth i lywio ei weithgarwch craffu, yn enwedig yng ngoleuni'r amser byr a oedd ar gael i wneud hynny.

Amserlen ar gyfer craffu

9. Ar ôl saith wythnos eistedd, roedd yr amserlen ar gyfer craffu Cyfnod 1 ar egwyddorion cyffredinol y Bil yn anarferol o fyr. Nododd sawl tyst fod yr amserlen gryno yn her i ansawdd y dystiolaeth y gellid ei darparu, a mynegwyd pryder ynghylch lefel y craffu y gellid ei wneud yn yr amser a oedd ar gael.

10. Ynglŷn â'r broses fyrrach, dywedodd UKHospitality Wales:

"... we feel that the truncating of a process, understandably because of the term of Government, is not going to help us get the type of scheme that we want to see implemented".⁷

11. Mynegodd y Gymdeithas Llety Tymor Byr ("STAA") y pryder canlynol:

"... due to the timing of the Bill falling not long before national elections, it will be rushed through stages without allowing time for proper scrutiny. Already, the turnaround for evidence on the Bill has been very short and impeded a detailed consultation of members and additional data collection."⁸

12. Gwrthododd Cymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid Preswyl ("NRLA") gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig fanwl, gan ddatgan nad oedd y ffenestr a ddarparwyd ar gyfer ymgynghori yn ddigonol ar gyfer trafod ei haelodaeth a llunio cyflwyniad cadarn sy'n seiliedig ar dystiolaeth.⁹

13. Mynegodd Airbnb bryder cryf ynghylch yr amserlen gyflymach ar gyfer pasio'r bil. Medden nhw:

"These timelines feel excessively rushed, particularly given that the bill will introduce major legal obligations on VAPs, create a new framework which may restrict their ability to continue operating, impose criminal penalties for non-compliance, and

⁷ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 13 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 206

⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA 23 – Cymdeithas Llety Tymor Byr

⁹ Llythyr oddi wrth Gymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid Preswyl, 4 Tachwedd 2025

apply a new regime on online platforms for enforcement that is out of keeping with international legal principles.

The impact on scrutiny is more important given that Welsh Government officials appear to be relying on the Senedd to address some of the open questions and the uncertainties and unresolved issues stemming from loose drafting of the bill. One example of this is that when we raised serious issues about the feasibility and practicality of the WRA's suggestions around how platforms might confirm the validity of registration numbers, we were simply told that we should "take it to the Senedd".¹⁰

14. Nododd Ysgrifennydd y Cabinet mai yr ymgynghoriad mwyaf ar unrhyw eitem yn y rhaglen lywodraethu oedd y maniffesto y safodd y Llywodraeth arno mewn etholiad. Dywedodd fod y cynnig i gyflwyno cynllun trwyddedu ym maniffesto ei blaid.¹¹ Cydnabu fod y Mesur yn dod yn union ar ddiwedd y tymor seneddol hwn, ond nododd fod gan lywodraethau raglenni llywodraethu, a bod rhaid eu cyflawni'n raddol dros yr holl amser sydd ar gael.¹²

Trafodaethau pwyllgorau eraill ar y Bil

15. Cafodd Pwyllgor Cyllid y Senedd dystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet ar oblygiadau ariannol y Bil ar 13 Tachwedd 2025.¹³ Cafodd Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Senedd dystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet ar faterion o fewn eu cylch gwaith ar 10 Tachwedd 2025.¹⁴ Mae'r ddau bwyllgor wedi adrodd ar eu casgliadau.

Ein barn ni

Rydym wedi canfod bod yr amserlen fer ar gyfer craffu ar egwyddorion cyffredinol y Bil yn annigonol; mae wedi cyfyngu ar ein gallu i gynnal y craffu trylwyr a phriodol a roddir fel arfer i gynigion nad ydynt yn rhai brys ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol. Er i ni ganfod bod dull Llywodraeth Cymru o gyhoeddi fersiwn ddrafft o'r Bil wedi bod yn weddol ddefnyddiol yn ein paratoadau ar

¹⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA.12 - Airbnb

¹¹ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 15

¹² Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 21

¹³ Y Pwyllgor Cyllid, 13 Tachwedd 2025

¹⁴ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 10 Tachwedd 2025

gyfer craffu, nid oedd yn ddewis priodol yn lle amserlen lawnach ar gyfer ystyriaeth Cyfnod 1 i egwyddorion cyffredinol y Bil. Ar ben hynny, ni ddylai proses craffu deddfwriaethol y Senedd gael ei hystyried yn ddewis yn lle ymgynghoriad ac ymgysylltiad llywodraeth â sector ar ddatblygu Bil.

Nodwn nod Ysgrifennydd y Cabinet i gyflawni'r ymrwymïadau a wnaed ym maniffesto ei blaid, ond nid ydym wedi gallu dod o hyd i gyfeiriad at drwyddedu llety ymwelwyr yn y ddogfen honno. Byddem yn croesawu eglurhad pellach ynghylch y pwynt yma. Serch hynny, rydym yn ei chael hi'n anodd cysoni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflwyno'r cynllun trwyddedu hwn yn ei Rhaglen Lywodraethu yn 2021 â'r amserlen fer a neilltuwyd ar gyfer proses ddeddfwriaethol y Senedd.

Rydym yn deall y rhwystredigaethau a deimlir gan sefydliadau nad oedd ganddynt amser i gyflwyno ymatebion trylwyr i'n hymgyngghoriad. Er ein bod wedi gallu cael ystod gymharol eang o dystiolaeth yn yr amser a oedd ar gael i ni, byddai amserlen hwy wedi caniatáu mwy o amser i randdeiliaid ddatblygu ymatebion ystyriol i'r Bil a byddai ein craffu wedi bod yn fwy manwl. Credwn y byddai hyn wedi galluogi'r Pwyllgor i fod yn fwy adeiladol yn y broses ddeddfwriaethol ac wedi ei gwneud yn bosibl llunio deddfwriaeth fwy cadarn. Ni ddylai llywodraethau yn y dyfodol gymryd yr amserlen a roddwyd i'r Bil hwn fel cynsail ar gyfer gwneud a chraffu ar ddeddfwriaeth nad yw'n ddeddfwriaeth frys, a dylid osgoi amserlen mor fyr oni bai bod amgylchiadau eithriadol yn mynnu fel arall.

Casgliad 1. Mae'r Pwyllgor yn gresynu at yr amserlen fer a neilltuwyd ar gyfer craffu Cyfnod 1 ar egwyddorion cyffredinol Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru), a'r effaith negyddol y mae hyn wedi'i chael ar allu rhanddeiliaid i gyfrannu at y broses.

Argymhelliad 1. Ni ddylai Seneddau a llywodraethau yn y dyfodol gymryd yr amserlen a roddwyd i'r Bil hwn fel cynsail ar gyfer gwneud a chraffu ar ddeddfwriaeth nad yw'n ddeddfwriaeth frys. Dylid osgoi amserlen mor fyr oni bai bod amgylchiadau eithriadol yn mynnu fel arall.

2. Cefndir a chyd-destun

Diben y Bil a'r effaith y bwriedir iddo ei chael

16. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod y Bil yn "darparu'r sail ddeddfwriaethol ar gyfer cynllun trwyddedu llety ymwelwyr". Mae'n ychwanegu mai pwrpas y Bil yw "hybu datblygiad twristiaeth yng Nghymru".¹⁵

17. Mae'r Bil yn:

- ailddatgan a moderneiddio swyddogaethau Gweinidogion Cymru o ran hybu twristiaeth yng Nghymru, a'i gwneud yn ofynnol iddynt roi sylw i effaith gymdeithasol bosibl twristiaeth a'i heffaith bosibl ar yr amgylchedd a'r Gymraeg;
- rheoleiddio darpariaeth llety ymwelwyr yng Nghymru drwy gyflwyno cyfundrefn drwyddedu sy'n canolbwyntio ar lety hunanddarpar i ddechrau, ac yn ceisio sicrhau bod safon y llety hwnnw'n cyd-fynd yn agosach â safonau cyfatebol sydd eisoes yn gymwys i'r sector rhentu preifat yng Nghymru;
- gwneud safon mewn perthynas â ffitrwydd llety ymwelwyr yn ofyniad contractiol, a
- sefydlu cyfeiriadur o lety ymwelwyr at ddiben darparu gwybodaeth i'r cyhoedd am lety ymwelwyr yng Nghymru.

18. Mae'r Bil hefyd yn creu cod o gyfraith Cymru ar dwristiaeth, gan ymgorffori darpariaethau'r Bil ei hun a darpariaethau Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 ("Deddf 2025"). Bydd is-ddeddfwriaeth a wneir maes o law o dan y Bil neu'r Ddeddf honno hefyd yn rhan o'r Cod.

19. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym:

"The Bill is there to support development of tourism in Wales. [...] It aims to support the development of tourism through a licensing regime, in the first instance for self-catering and self-contained accommodation. It aims to develop that scheme in a way that is as simple and straightforward as possible, automating processes as

¹⁵ Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraffau 3.2 a 3.3

much as we can, using contemporary forms of technology. It aims to align the registration requirements of the Visitor Accommodation (Register and Levy) Etc. (Wales) Act 2025 with the licensing requirements of this Bill. It aims to secure a proper balance between the needs of the industry and the communities within which the industry operates. It aims to create a more level playing field between the obligations on an individual who chooses to rent a property on a long-term or a short-term basis. It brings Wales into line with other UK nations in creating such a licensing scheme in order to provide reassurance to visitors. And it creates a code of tourism law for Wales, making the law more accessible, easier to understand and use, and available bilingually.”¹⁶

Cefndir y Bil

20. Ymrwymodd Rhaglen Llywodraethu Llywodraeth Cymru i “[f]wrw ymlaen â champau i ...[d]rwyddedu llety gwyliau”¹⁷ ac roedd y Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru yn cynnwys ymrwymiad i “[g]ynllun trwyddedu statudol ar gyfer llety gwyliau.”¹⁸

21. Ym mis Rhagfyr 2022, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion i gyflwyno cynllun trwyddedu statudol ar gyfer pob darparwr llety ymwelwyr yng Nghymru. Trefnwyd tri digwyddiad ymgynghori yn y cnawd hefyd a chawsant eu cynnal ym mis Mai 2023 gyda 58 o randdeiliaid allweddol. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru grynoded o’r ymatebion i’r ymgynghoriad ynghyd â chrynodeb o’r canfyddiadau o’r digwyddiadau rhanddeiliaid, ym mis Gorffennaf 2023.¹⁹

22. Roedd y ddogfen ymgynghori yn nodi mai un o brif nodau cynllun trwyddedu statudol yw “sicrhau tegwch i bob darparwr llety ymwelwyr sy’n gweithredu yn y sector” ac i fynd i’r afael â “[ph]ryderon nad yw rhannau penodol o’r sector yn bodloni nac yn cydymffurfio â’u rhwymedigaethau statudol.”

23. Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn cynnwys cynigion i greu cofrestr gynhwysfawr o ddarparwyr llety ymwelwyr. Aethpwyd â’r cynigion hyn ymlaen a’u

¹⁶ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 7.

¹⁷ Llywodraeth Cymru, *Y Rhaglen Lywodraethu - Diweddariad*, Rhagfyr 2021

¹⁸ Llywodraeth Cymru, *Y Cytundeb Cydweithio*, Tachwedd 2021

¹⁹ Llywodraeth Cymru, *canlyniad yr ymgynghoriad: Cynllun trwyddedu statudol i ddarparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru*, Gorffennaf 2023

cynnwys fel rhan o Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025, a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 18 Medi 2025.²⁰

24. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi mai'r themâu troswaol mwyaf cyffredin a ddaeth i'r amlwg o ymgynghoriad Llywodraeth Cymru rhwng mis Rhagfyr 2022 a mis Mawrth 2023 ar gynllun trwyddedu statudol oedd:

- “Y farn y byddai'r cynllun trwyddedu statudol arfaethedig yn creu baich gweinyddol ac ariannol sylweddol;”
- Yr awgrym bod y farchnad llety ymwelwyr yn gystadleuol iawn ac, felly, ei bod eisoes yn gweithredu'n effeithlon; ac
- Anghytundeb cyffredinol ag unrhyw fath o drwyddedu statudol, heb gynnig unrhyw esboniadau pellach ar y farn hon.”²¹

25. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru dri digwyddiad ymgynghori yn y cnawd hefyd, gyda rhanddeiliaid twristiaeth allweddol yng ngogledd, canolbarth a de Cymru ym mis Mai 2023. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y cafwyd y canlynol ym mhob un o'r tri digwyddiad:

“... gwrthwynebiad llafar cryf i'r cysyniad o drwyddedu ac roedd yn amlwg bod y rhanddeiliaid yn ffafrio system gofrestru. [...] Fodd bynnag, roedd y syniad o gael trwydded neu rif cofrestru i ddangos cydymffurfiaeth wedi cael ei groesawu, yn ogystal â'i ystyried yn ffordd o sicrhau cyfranogiad.”²²

Y cyd-destun polisi

26. Yn ogystal â Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud nifer o benderfyniadau polisi yn ystod y blynyddoedd diwethaf sy'n effeithio ar yr economi ymwelwyr, gan gynnwys:

- O fis Ebrill 2023, cafodd yr isafswm amser y mae'n rhaid gosod eiddo hunanddarpar er mwyn bod yn atebol i dalu ardrethi annomestig (yn hytrach na'r dreth gyngor) ei gynyddu o 70 diwrnod i 182 diwrnod (26 wythnos) mewn unrhyw gyfnod o 12 mis. Mae angen i'r eiddo fod ar gael

²⁰ Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025

²¹ Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 4.7

²² Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 4.13

i'w osod hefyd am o leiaf 252 diwrnod (36 wythnos) mewn cyfnod o 12 mis.

- Ers mis Ebrill 2023, mae pwerau gan awdurdodau lleol i gyflwyno premiymau treth gyngor uwch, yn ôl disgrisiwn, ar ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor – hyd at 300 y cant. O fis Ebrill 2025, mae 21 awdurdod lleol wedi nodi y byddant yn codi premiwm naill ai ar ail gartrefi neu eiddo gwag hirdymor, neu'r ddau.²³
- Ym mis Hydref 2022, cyflwynwyd tri dosbarth defnydd newydd i roi'r gallu i awdurdodau cynllunio lleol ei gwneud yn ofynnol cael caniatâd cynllunio cyn newid defnydd prif eiddo preswyl yn ail gartref, llety gwyliau tymor byr neu eiddo defnydd cymysg penodol.²⁴ Cyngor Gwynedd oedd yr awdurdod cyntaf i ddefnyddio'r pŵer newydd.²⁵
- Ers mis Ebrill 2024, mae'n ofynnol i'r holl fusnesau, a gweithleoedd y sector cyhoeddus a'r trydydd sector wahanu deunyddiau ailgylchadwy yn yr un ffordd ag aelwydydd.²⁶

27. Cyfeiria'r Memorandwm Esboniadol at yr ymatebion a gafodd y Pwyllgor Cyllid i'r ymgynghoriad ar y Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll), gan nodi y "gofynnodd sawl ymatebydd am i sylw gael ei roi i effaith gronol polisi'r Llywodraethau a digwyddiadau byd-eang wrth ystyried ymyriadau pellach".²⁷

Trosolwg o'r Bil

28. Mae'r Bil yn cynnwys pum rhan, 60 adran a dwy Atodlen.

29. Mae Rhan 1 yn rhoi trosolwg o'r Bil ac yn sefydlu bod y Bil wedi'i fwriadu i fod yn ffurfio rhan o God o Gyfraith Cymru (ynghyd â Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025).

30. Mae Rhan 2 yn nodi cyfrifoldebau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â datblygu twristiaeth yng Nghymru.

²³ Llywodraeth Cymru, [Treth Gyngor ar dai gwag ac ail gartrefi](#)

²⁴ Llywodraeth Cymru, [Datganiad Ysgrifenedig: Newidiadau i ddeddfwriaeth a pholisi cynllunio ar gyfer ail gartrefi a llety gosod tymor byr](#), Medi 2022

²⁵ Cyngor Gwynedd, [Cyngor Gwynedd i gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4](#), Gorffennaf 2024

²⁶ Llywodraeth Cymru, [Newidiadau i ailgylchu yn y gweithle: canllawiau ar gyfer gweithleoedd](#), Gorffennaf 2023

²⁷ Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru), [Memorandwm Esboniadol](#), paragraff 4.20

- 31.** Mae Rhan 3 yn darparu ar gyfer rheoleiddio rhai mathau o lety ymwelwyr yng Nghymru, gan gynnwys drwy gyflwyno cynllun trwyddedu.
- 32.** Mae Rhan 4 yn sefydlu cyfeiriadur o lety ymwelwyr yng Nghymru ac yn gosod gofynion mewn perthynas â hysbysebu a marchnata llety ymwelwyr.
- 33.** Mae Rhan 5 yn nodi darpariaethau amrywiol a chyffredinol, gan gynnwys mewn perthynas â gweithrediad y Bil mewn achosion arbennig.
- 34.** Mae Atodlen 1 yn diwygio Deddf Datblygu Twristiaeth 1969.
- 35.** Mae Atodlen 2 yn diwygio Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 ("Deddf 2025") a Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016.

3. Egwyddorion cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth

Egwyddorion cyffredinol y Bil

36. Yn unol â Rheol Sefydlog 26.10, rôl y Pwyllgor yw ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil a chyflwyno adroddiad i'r Senedd er mwyn llywio penderfyniadau ynghylch a ddylai'r Bil fynd rhagddo i gyfnodau nesaf y broses ddeddfwriaethol.

37. Roedd cefnogaeth eang ymhlith tystion i egwyddorion cyffredinol y Bil; fodd bynnag, mynegodd llawer bryder ynghylch manylion ei weithredu, gyda rhai yn awgrymu ei fod wedi cael ei ruthro drwodd.²⁸

Blwch 1: Enghreifftiau o farn ynglŷn ag egwyddorion cyffredinol y Bil²⁹

"I agree with the policy intentions, and welcome the improvements." (Martyn Brookes, DTRVA 08)

"We agree with the policy intention and welcome the bill. Standardisation of quality and safety will increase visitor confidence. As holiday accommodation owners that have painstakingly followed all legislation and guidance at considerable cost over the past 15 years, it has long been a frustration of ours to see other sub par accommodation offering stays at below cost rates." (Beach View Cottages, DTRVA 09)

"Electrical Safety First considers that this bill will provide enhanced safety and reassurance for guests and owners, reduce the risk to properties from accidental electrical fires, improve the quality of Welsh housing stock and protect the reputation of the Welsh Tourism industry." (Electrical Safety First, DTRVA 11)

"A licensing scheme would not result in an increase in standards as booking platform reviews are the key drivers for customers booking holiday accommodation." (CLA Cymru, DTRVA 17)

"The Club supports the objective of the Bill which seeks to ensure that visitor accommodation meets minimum standards and offers visitors the confidence in regulated premises, as well as supporting sustainable tourism by balancing

²⁸ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 24

²⁹ Mae'r ymatebion ar gael yn llawn ar [dudalen we yr ymgynghoriad](#).

the economic and cultural benefits of tourism alongside the pressures it places on local communities and infrastructure.” (Y Clwb Carafanau a Chartrefi Modur, DTRVA 19)

“Visit Pembrokeshire supports the Welsh Government’s aim of ensuring a safe, fair, and transparent tourism accommodation sector. However, success will depend entirely on the scheme’s *practical implementation*. The system must be designed to work with the industry - not against it.” (Croeso Sir Benfro, DTRVA 31)

38. Meddai Twristiaeth Gogledd Cymru

“Our members overwhelmingly recognise the potential benefits of a well-designed scheme, including improved guest safety, raised quality standards, and a more professional sector. Mandatory requirements for fire risk assessments, smoke and CO alarms, electrical and gas inspections, and public liability insurance would enhance visitor confidence and level the playing field, particularly for established businesses already complying with such standards.”³⁰

39. Fodd bynnag, fe wnaethant rybuddio bod beichiau gweinyddol ychwanegol yn creu risg o leihau’r cyflenwad o lety, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, a gyrru darparwyr anffurfiol allan o’r farchnad.

40. Dywedodd FSB Cymru eu bod, mewn egwyddor, yn gefnogol i roi chwarae teg i fusnesau sy’n cydymffurfio â rheoliadau.³¹

41. Roedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol hithau’n gefnogol i roi chwarae teg, gan nodi bod hyn yn rhoi tawelwch meddwl i westeion eu bod yn aros mewn amgylchedd diogel.³²

42. Yn ôl Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain (“BH&HPA”) mae’r Bil yn ddull cymesur ac wedi’i strwythuro’n dda o wella goruchwyliaeth ar lety ymwelwyr.³³

43. Roedd Cymdeithas yr Iaith yn croesawu cyflwyno’r Bil, a hwythau’n dweud “bydd o gymorth i weithredu mesurau fel gorchymyn Erthygl 4 yn ogystal â

³⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, DTRVA 25 – Twristiaeth Gogledd Cymru

³¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, DTRVA 01 - FSB Cymru (Ffederasiwn Busnesau Bach)

³² Tystiolaeth ysgrifenedig, DTRVA 02 - Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

³³ Tystiolaeth ysgrifenedig, DTRVA 21 – Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain

rheoleiddio llety gwyliau". Fe ychwanegon nhw bod "angen mwy o lais ar y gymuned mewn datblygiadau twristiaeth a gwyliau gan eu bod yn effeithio'n sylweddol ar gymunedau".³⁴

44. Roedd CLILC yn cytuno ag egwyddorion cyffredinol y Bil: Meddent hwy:

*"There's clearly synergy with the proposals around the visitor levy full stop, and I think there's a complementarity in having a licence scheme for short-term lets. I think it's also about standards and ensuring that there are high standards provided in the industry."*³⁵

45. Nododd CLILC fod trwyddedu yn gwneud rheoleiddio sector gymaint yn haws. Ychwanegodd:

*"What you're able to do is to have a really good relationship with, in this case, the accommodation provider, because they have asked for your involvement, made an application. So, that relationship is so much better from the start, and the outcomes then are more productive."*³⁶

46. Nododd Cyngor Abertawe ei gefnogaeth i egwyddorion cyffredinol y Bil ac ychwanegodd fod llwyddiant yn dibynnu ar broses syml o ran cymhwyso, ffioedd fforddiadwy a chyfathrebu cadarn er mwyn osgoi rhoi gormod o faich ar weithredwyr llai.³⁷

47. Fodd bynnag, awgrymodd y Gymdeithas Llety Tymor Byr ("STAA") fod angen mireinio'r Bil yn sylweddol er mwyn iddo gael ei gefnogi gan y sector.³⁸

48. Nododd Twristiaeth Canolbarth Cymru ("MWT Cymru") eu cefnogaeth i fwriad y Bil, ond gan ychwanegu bod ganddynt bryderon mawr ynghylch ei weithrediad ymarferol.³⁹ Fe wnaethant amlygu eu cefnogaeth mewn egwyddor i drwyddedu teg i sicrhau diogelwch, tryloywder a chysondeb ar draws pob darparwr, ac i fframwaith cenedlaethol yn hytrach na chynlluniau lleol tameidiog.

³⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA 13 – Cymdeithas yr Iaith

³⁵ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 13 Tachwedd, Cofnod y Trafodion, paragraff 10.

³⁶ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 13 Tachwedd, Cofnod y Trafodion, paragraff 11.

³⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA 34 – Cyngor Abertawe

³⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA 23 – Cymdeithas Llety Tymor Byr

³⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA 26 – MWT Cymru (Twristiaeth Canolbarth Cymru)

49. Dywedodd Cymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid Preswyl fod effaith y Bil yn debygol o fod fwyaf dwys mewn ardaloedd lle mae buddsoddiad sylweddol mewn llety gosod tymor byr wedi lleihau argaeledd cartrefi rhent tymor hir. Awgrymodd Cymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid Preswyl fod mynd i'r afael â'r anghydbwysedd hwn yn gam pwysig tuag at wella fforddiadwyedd a mynediad i drigolion lleol.⁴⁰

50. Roedd Airbnb yn gwrthwynebu'r Bil a galwodd am ei dynnu'n ôl, gan awgrymu bod trwyddedu i reoleiddio iechyd a diogelwch yn offeryn di-fin a diangen sy'n gwbl anghymesur â'r risgiau posibl y mae gwesteion yn eu hwynebu.⁴¹

Yr angen am ddeddfwriaeth

51. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn awgrymu ei bod yn debygol bod y sector twristiaeth "yn cael effaith uniongyrchol ar argaeledd tai i bobl leol, gydag eiddo yn cael ei dynnu o'r farchnad breswyl i fod yn llety i ymwelwyr".⁴²

52. Heb drefn drwyddedu ar gyfer llety ymwelwyr, mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn awgrymu,

"... risg sylweddol y bydd y sector llety gosod tymor byr yn parhau i ehangu mewn ffordd sy'n gwaethygu ystumiau'r farchnad a nodwyd eisoes, gyda rhai darparwyr llety, yn ddjarwybod, yn methu â chyrraedd safonau rheoleiddio, sy'n golygu y gallant weithredu ar gost is na darparwyr sy'n deall y gyfundrefn reoleiddio bresennol ac yn buddsoddi mewn cydymffurfio â hi".⁴³

53. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi ymhellach fod "risg hefyd y bydd yr effeithiau ar ein cymunedau yn dod yn fwy amlwg."⁴⁴

54. Roedd Cymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid Cofrestredig yn cefnogi'r nodau hyn yn y Bil:

⁴⁰ Llythyr oddi wrth Cymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid Preswyl, 4 Tachwedd 2025

⁴¹ Tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA.12 - Airbnb

⁴² Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 10.16

⁴³ Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.35

⁴⁴ Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.39

“... we welcome the Welsh Government's intention to level the playing field between the short-term let market and the private rented sector. We support the introduction of minimum safety and quality standards for visitor accommodation, which we believe will help ensure consistency and confidence across short- and long-term rented housing.

We also note that the impact of the Bill is likely to be most profound in areas where significant investment in short-term lets has reduced the availability of long-term rented homes. Addressing this imbalance is an important step toward improving affordability and access for local residents.”⁴⁵

55. Nododd Propertymark hefyd ei fod yn cefnogi'n ofalus nod y Bil i sicrhau bod y modd y rheoleiddir llety hunanddarpar i ymwelwyr yn cyd-fynd yn well â'r modd y rheoleiddir y sector rhent preifat, gan gydnabod pwysigrwydd mynd i'r afael â phryderon ynghylch colli tai rhent tymor hir i lety gosod tymor byr.⁴⁶

56. Rhybuddiodd Cymdeithas Hunanddarparwyr yr Alban a Chynghrair Twristiaeth yr Alban am bwysigrwydd bod ag un amcan clir yn y Bil. Meddai Cymdeithas Hunanddarparwyr yr Alban:

“... without a clear purpose and policy objective, Wales risks doing exactly what Scotland's done, and it's harming the wrong people and regulating the wrong thing”.⁴⁷

57. Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet mai prif ddiben y Bil yw hybu datblygiad twristiaeth yma yng Nghymru. Fodd bynnag, ychwanegodd:

“But as I think I've been clear on throughout, tourism cannot thrive in Wales in the way we want it to without attending to the needs of those communities in which it is concentrated. There's a symbiotic relationship between the future of the industry and the future of those communities, and there is no doubt that the very rapid growth in self-contained accommodation has in some places meant that houses that would previously have been available for long-term letting have now become available only for short-term letting, meaning that

⁴⁵ Llythyr oddi wrth Cymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid Preswyl, 4 Tachwedd 2025.

⁴⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, DTRVA 28 – Propertymark

⁴⁷ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 277.

people who live in those communities, who give them their character and make them the sorts of places that people want to visit, are no longer as able to remain in those communities as they otherwise would have been. So, there is a housing purpose.”⁴⁸

58. Awgrymodd sawl tyst nad oedd angen cynllun trwyddedu, ac y gallai'r gofrestr a sefydlwyd drwy Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 fod wedi cyflawni'r un amcanion. Nododd Awaze ei ymrwymiad i sicrhau bod rhenti tymor byr yn cael eu gweithredu'n gyfreithlon, ond cwestiynodd, os yw'r cynllun yn mynd i sicrhau bod pob perchennog yn bodloni'r safonau penodedig, pam na ellid cyflawni hyn trwy addasu'r Cynllun Cofrestru i ganiatáu lanlwytho dogfennau yn lle hynny.⁴⁹

59. Awgrymodd Airbnb y bydd y cynllun cofrestru yn caniatáu i Lywodraeth Cymru gyflawni bron pob un o'r pethau y mae'n ceisio'u gwneud gyda'r Bil hwn, gan ychwanegu:

“It will provide local authorities and enforcement bodies with where the short-term lets are and who's operating them. It will allow hosts and accommodation providers to be signposted to information about their health and safety obligations and to attest that they understand and follow them.”⁵⁰

60. Fodd bynnag, nododd CLILC y canlynol:

“A register on its own doesn't give you the power to inspect and check standards within the property. A licensing scheme does allow you to do that, and it comes with all the sanctions that a licensing scheme has then as well.”⁵¹

Sylfaen dystiolaeth ac amseriad y Bil

61. Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi bod rhai ymatebwyr i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar y Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll), gan

⁴⁸ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 404

⁴⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA 14 - Awaze

⁵⁰ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 52

⁵¹ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 13 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 13

gynnwys Airbnb, wedi awgrymu “y dylid rhoi’r gofrestr ar waith cyn i unrhyw benderfyniadau gael eu gwneud o ran cyflwyno cynllun trwyddedu”.⁵²

62. Mae’r Memorandwm Esboniadol hefyd yn cydnabod y cyfyngiadau yn y data sydd ar gael fel tystiolaeth o’r angen am y Bil, sef:

- “Yr her amlwg wrth amcangyfrif maint y sector yw prinder data dibynadwy sydd ar gael ar hyn o bryd ynghylch nifer y llety hunanddarpar sydd ar gael yng Nghymru a nifer y gweithredwyr sy’n gyfrifol am y llety hwnnw”.
- “Nid oes data manwl gywir ar lety gosod tymor byr yng Nghymru ar gael”.
- “Ar hyn o bryd nid oes data ar gael ar nodweddion safleoedd na lefelau cydymffurfio â’r rhwymedigaethau statudol presennol”.
- Mae’r Memorandwm yn cyfeirio at ddiffyg cydymffurfio a nodwyd â’r gofynion statudol presennol. “Rydym wedi clywed adroddiadau anecdotaidd bod cydymffurfiaeth anghyson â safonau rheoleiddio ar draws y sector hunanddarpar yn arbennig”.

63. Dywedodd STAA ei bod yn pryderu ynghylch y duedd i gyflwyno rhagdybiaethau a thystiolaeth anecdotaidd am effaith rhentu tymor byr ar argaeledd tai fel ffaith yn y Memorandwm Esboniadol.⁵³

64. O ran y diffyg cydymffurfio hwn a nodwyd â safonau presennol, nododd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru fel a ganlyn:

“While we do not possess a formal dataset to quantify this, our experience suggests that there are indeed inconsistencies in fire safety awareness and compliance among smaller accommodation providers”.⁵⁴

65. Cododd nifer o dystion bryderon ynghylch amseriad cyflwyno’r Bil. Dywedodd STAA eu bod yn ei chael hi’n gynamserol cyflwyno cynllun trwyddedu ar gyfer llety ymwelwyr cyn bod y cynllun cofrestru, y deddfwyd ar ei gyfer yn

⁵² Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru), Memorandwm Esboniadol, 4.19

⁵³ Tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA 23 – Cymdeithas Llety Tymor Byr

⁵⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA 29 – Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

barod, wedi cael ei weithredu ac y gellid defnyddio data ohono i sicrhau bod polisi'n cael ei ddatblygu ar sail tystiolaeth ac mewn modd cymesur.⁵⁵

66. Meddai Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru:

*"The proposed licensing regime provides an opportunity to improve data collection and understanding of fire safety risks within the sector. However, without a strong evidence base at the outset, there is a risk that the framework may not be fully proportionate or targeted to actual risk levels."*⁵⁶

67. O ran data, dadleuodd Ysgrifennydd y Cabinet:

*"I think the limitations in the data are more about its specificity than they are about the general patterns that the data reveals. Because, yes, there are lots of different estimates of how much self-contained accommodation there is, how many people visit it, and so on—different surveys give you different answers—and that does make construction of the regulatory impact assessment particularly challenging in some ways, but the underlying patterns in almost all of the data tell you the same story."*⁵⁷

68. Ychwanegodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

*"... the register is what will solve the data problems for us, because when we have a register-and the register will be completed, we think, in 2027-we will have a completely different level of knowledge and assurance about who owners are, where accommodation is to be found, and so on. All of that will be available before this Bill, if it succeeds at Stage 1, and then further in the process of Senedd scrutiny, if this Bill reaches the statute book at the very end of the Senedd term, its operational impact, and some of the operational detail through regulation, will not happen until after the register is complete."*⁵⁸

⁵⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA 23 – Cymdeithas Llety Tymor Byr

⁵⁶ Llythyr oddi wrth Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru, 14 Tachwedd 2025

⁵⁷ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 40

⁵⁸ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 41

69. Cododd tystion bryderon hefyd ynghylch effaith gronnus ar fusnesau, yn dilyn newidiadau polisi a deddfwriaethol diweddar. Nododd Twristiaeth Gogledd Cymru'r canlynol ymhlith ei aelodau:

*"... significant concerns persist regarding the cumulative regulatory burden on an industry already facing unprecedented challenges. In the last 36 months, tourism businesses have navigated multiple new stipulations amid a cost-of-living crisis, with hospitality in areas like Caernarfon reporting at least 30% downturns compared to previous years."*⁵⁹

70. Roedd FSB Cymru'n cytuno â'r syniad o effaith gronnus, ac ychwanegodd:

*"... on that partnership approach that the explanatory memorandum says is the aim in developing the tourism sector, and having the partnership from Government with the sector, it has felt for the sector slightly like it's being 'done to', rather than being 'done with'."*⁶⁰

71. Nododd UKHospitality Wales sylwadau gan Gymdeithas Broffesiynol yr Hunanddarparwyr ("PASC") fod y straen bellach yn dangos ar eu pobl fusnes. Fe wnaethant amlygu fel a ganlyn:

*"They're mainly microbusinesses. The majority of self-catering owners in Wales are female—about 53 per cent—and over 60 years old, and two thirds of the owners live within 10 miles and more than half live next door to the properties that we're talking about. So, you can get a picture of the types of businesses that are involved and the amount of resource that they've got to be able to run a business."*⁶¹

72. Dywedodd Croeso Sir Benfro fod gweithredwyr yn teimlo wedi ymlâdd ac wedi blino'n arw, ac yn bryderus iawn. Ychwanegon nhw:

⁵⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, DTRVA 25 - Cynghrai Twristiaeth Cymru

⁶⁰ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 13 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 245

⁶¹ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 13 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 249

“... when we’re introducing this Bill, we really do need to try and make it as simple as possible and all-inclusive.”⁶²

73. Roedd tystion gan gynnwys FSB Cymru a STAA yn cytuno y byddai cyfathrebu’n bwysig. Dywedodd Twristiaeth Gogledd Cymru:

“... there is a cumulative impact just of the sheer volume of legislation to get our heads around and the importance of getting clear messaging and clarity.”⁶³

74. Cydnabu Ysgrifennydd y Cabinet fod hwn wedi bod yn gyfnod cymharol brysur i’r sector o ran newidiadau polisi a newidiadau deddfwriaethol ond nododd fod y newidiadau wedi bod yn ymateb i natur y diwydiant sy’n newid yn gyflym. Eglurodd:

“So, lots of what we have done during this Senedd term is to try to help the industry find that balance, where it has a harmonious relationship with the communities that it depends on, and very often those communities depend on tourism as well.”⁶⁴

75. Mynegodd sawl tyst bryder nad oeddent wedi cael y cyfle i gyfrannu at ddatblygiad y Bil, ac awgrymasant fod y Bil wedi cael ei ruthro. Dywedodd Booking.com fod pryderon gwirioneddol ynghylch drafftio’r Bil wedi cael eu codi’n barod, ond na fu’r gallu hwnnw i wneud unrhyw welliannau cyn iddo gyrraedd y Senedd wedyn, sy’n dangos y math o gyflymder yma, yn eu tyb hwy.⁶⁵

76. Meddai Travel Chapter:

“... the rush to introduce the Bill, with a large number of delegated powers, will not ensure it has sufficient scrutiny or tightness to achieve the stated policy intention without a significant risk of scope creep.”⁶⁶

⁶² Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 233

⁶³ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 13 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 422

⁶⁴ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 38

⁶⁵ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 21

⁶⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA 18 – Travel Chapter

77. Nododd Cynghair Twristiaeth Cymru (“WTA”)

“As an industry, we’re behind this part of the legislation, and we want to get it right. If we can’t get it right and we’re rushing it, then we’re going to end up with something that isn’t going to work properly, possibly, and we’re going to have to come back and review it, and I don’t think that’s good for anyone.”⁶⁷

78. Awgrymodd Awaze, drwy ddilyn proses gyflymach, fod llawer llai o amser i berchnogion a llwyfannau ddeall eu rhwymedigaethau o dan y Bil a gweithredu prosesau cydymffurfio, gan gynyddu’n sylweddol y risg o beidio â chydymffurfio a gwanhau effeithiolrwydd y Bil.”⁶⁸

79. Nid oedd Ysgrifennydd y Cabinet yn cytuno bod y Bil wedi cael ei ruthro fel a ddwedwyd mewn tystiolaeth, gan nodi ei fod wedi bod ar y gweill am bum mlynedd.⁶⁹

80. Wrth ymateb i’r cwestiwn a fyddai wedi bod yn fuddiol ymgynghori ar Fil drafft, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod yr adeg yn yr amserlen pan fo’r Bil hwn yn cael ei gyflwyno’n golygu nad yw’n ymarferol cael Bil drafft. Ychwanegodd:

“I think it’s important to say that there has been consultation on these proposals not just in the 2023 consultation to which you referred; there’s been consultation in every single year of this term. [...] So, I think the second reason why the case for a draft Bill is less compelling in this case, as well as the timetabling issues, is that the issues have been so very well rehearsed over a five-year period.”⁷⁰

Trwyddedu mewn gwledydd eraill

81. Pasiwyd Gorchymyn Deddf Llywodraeth Ddinesig (Yr Alban) 1982 (Trwyddedu Llety Gosod Tymor Byr) 2022 gan Senedd yr Alban ar 19 Ionawr 2022 a daeth i rym ar 1 Mawrth 2022.⁷¹

⁶⁷ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 13 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 209

⁶⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA 14 - Awaze

⁶⁹ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 406

⁷⁰ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 21-22

⁷¹ Legislation.gov.uk: Gorchymyn Deddf Llywodraeth Ddinesig (Yr Alban) 1982 (Trwyddedu Llety Gosod Tymor Byr) 2022

82. Mae'r cynllun trwyddedu yn berthnasol i'r Alban gyfan ac yn cael ei weithredu gan awdurdodau lleol unigol sy'n gweithredu fel yr awdurdod trwyddedu. Ers 1 Hydref 2022, rhaid i letywyr newydd a gweithredwyr newydd gael trwydded cyn y gallant dderbyn archebion neu dderbyn gwesteion.

83. I gael trwydded, rhaid i ddarparwyr llety fodloni amodau penodol gan gynnwys safonau diogelwch, yswiriant atebolrwydd cyhoeddus, prawf person addas a phriodol, a thalu'r ffi ofynnol. Gall awdurdod trwyddedu wrthod ystyried cais os yw'n edrych fel bod angen caniatâd cynllunio ac nad yw wedi cael ei sicrhau. Gall awdurdodau trwyddedu hefyd osod amodau ychwanegol i fynd i'r afael ag amgylchiadau neu bryderon lleol.

84. Uchafswm hyd trwydded gyntaf yw tair blynedd. Gall awdurdodau trwyddedu ganiatáu adnewyddu trwydded am gyfnod hwy. Mae gan awdurdodau trwyddedu naw mis o'r dyddiad y gwnaed y cais i ystyried pob cais a gwneud penderfyniad yn eu cylch.

85. Yn haf 2024, cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban adroddiad diweddar ar weithredu'r rheoliadau llety tymor byr, yn seiliedig ar adborth rhanddeiliaid.⁷² Mae rhai o'r pwyntiau allweddol o'r gwaith ymchwil yn cynnwys:

- Cyn trwyddedu, nid oedd gan Lywodraeth yr Alban ddata dibynadwy am niferoedd y llety gosod tymor byr yn yr Alban. Erbyn hyn mae ganddi ystadegau swyddogol 'dros dro a rhannol' ar nifer a nodweddion y ceisiadau trwyddedu ar gyfer llety tymor byr.
- Mae Llywodraeth yr Alban o'r farn ei bod yn rhy gynnar i asesu unrhyw effaith a achoswyd gan y cynllun trwyddedu o ystyried y cyfnod byr y mae'r cynllun wedi bod ar waith. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi Brexit, pandemig Covid a'r amgylchedd cyllidol fel effeithiau parhaus posibl.

86. Siaradodd Cynghair Twristiaeth yr Alban am eu profiadau hwy o gynllun trwyddedu'r Alban, a rhybuddiasant ei fod wedi arwain at ryw faint o leihad yn y stoc llety, y ceir galw amdani o hyd, at greu cynnyrch ar y farchnad ddu ac, yn amlwg, at gynyddu prisiau i ymwelwyr hefyd.⁷³

⁷² Llywodraeth yr Alban, [Short-Term Let Licensing Implementation Update Report 2024](#), Awst 2024

⁷³ [Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 256](#)

87. O ran gwersi a ddysgwyd o ddeddfwrfeydd eraill, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod o'r farn mai'r wers fwyaf amlwg o brofiadau mewn mannau eraill yw bod hwn yn rhywbeth y bydd angen i bawb ei wneud. Ychwanegodd:

"I think there are specific lessons that we have learnt from the Northern Irish and the Scottish experience—sometimes very positive lessons. We've learnt from the things they've done well. Some things we've decided to do differently. So, in the Northern Irish context, to get a licence, every premises has to have a physical inspection. That is resource intensive, and it means that the process is a long one. The Northern Ireland Executive are consulting at the moment on a move away from that regime to what they refer to as a sort of intelligence-led form of operation, and our Bill is much closer to that.

[...]

*Scotland has a locally based scheme, so it's up for each local authority to run their own licensing regime. I visited Edinburgh within the last 12 months to talk to them about their visitor levy Bill, which also operates on a local authority basis, and one of the things that they said to me that the industry was telling them was that they thought there would be advantages in a national scheme where the rules are the same everywhere."*⁷⁴

Canlyniadau anfwriadol

88. Awgrymodd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol fel a ganlyn:

*"Some providers may choose to go under the radar to avoid the scheme, only advertising on social media or promoting to repeat guests."*⁷⁵

89. Adleisiwyd hyn gan Travel Chapter, a ddywedodd fod risg wirioneddol iawn o gynydd yn y Farchnad Ddu.⁷⁶

90. Rhybuddiodd MWT Cymru:

⁷⁴ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 25-26

⁷⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA.02 - Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

⁷⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA.18 - Travel Chapter

*"The definitions, data requirements, and system architecture as proposed could unintentionally impose significant administrative and financial burdens on businesses and not-for-profit DMOs. If not implemented carefully, this could disrupt destination marketing, reduce visibility for Welsh businesses, and undermine the regional tourism economy."*⁷⁷

91. Awgrymodd CLILC y gallai'r cynllun "arwain at ganlyniadau anfwriadol ar gyfer darparwyr llety tymor byr llai gan y gall costau cydymffurfio atal gweithredwyr ar raddfa fach, gan leihau amrywiaeth o ran llety". Tynnodd CLILC sylw at y ffaith bod rhai perchnogion tai yn gosod eu heiddo neu ystafell yn eu heiddo ar adegau o alw mawr, er enghraifft ar adeg digwyddiadau chwaraeon neu Sioe Frenhinol Cymru. Nododd CLILC y gall hyn ddarparu ar gyfer "angen o ran llety sy'n werthfawr", yn enwedig mewn ardal wledig "lle mae llety o'r fath yn brin".⁷⁸

92. Nododd unigolyn a ymatebodd i'r ymgynghoriad ei farn y bydd prisiau'n codi, gan ddweud y bydd rhai darparwyr bach yn cael eu heithrio gan y bydd yn creu gormod o faich gweinyddol i drafferthu yn ei gylch."⁷⁹

93. Er eu bod yn nodi eu cefnogaeth i egwyddorion cyffredinol y Bil, awgrymodd Beach View Cottages y gallai'r Bil, fel y'i hysgrifennwyd, achosi i nifer yr unedau eiddo ostwng, gan felly leihau nifer yr ymwelwyr ag atyniadau a bwytai, ac effeithio ar ddarparwyr gwasanaethau lleol y mae perchnogion yn dibynnu arnynt (glanhawyr, pobl cynnal a chadw, trydanwyr, plymwyr, garddwyr).⁸⁰

94. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y bydd yr effaith ar y cyflenwad o lety yn ymylol ac mai ei gred ef yw bod nifer y bobl a fydd yn gadael y diwydiant o ganlyniad i'r bil hwn yn fach iawn, iawn.⁸¹

95. O ran twf posibl mewn marchnad ddu o lety ymwelwyr, roedd Ysgrifennydd y Cabinet o'r farn bod y sefyllfa yn yr Alban yn wahanol i'r sefyllfa yng Nghymru. Meddai:

"I just think the visibility of the scheme means that the chances of you being able to operate under the radar in Wales, when you've got to be registered and you've got to have a licence, and

⁷⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA 26 – MWT Cymru (Twristiaeth Canolbarth Cymru)

⁷⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA 22 – Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)

⁷⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA 07 - Unigolyn

⁸⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA 09 – Beach View Cottages

⁸¹ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 150

people who live nearby will be able to find the evidence as to whether you are actually doing that, I actually think it'll be very difficult for that to happen.”⁸²

Is-ddeddfwriaeth

96. Mae'r Bil yn cynnwys 20 o bwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn nifer o feysydd ac un pŵer i wneud gorchmynion cychwyn (yn adran 59(2)). Ceir crynodeb o'r pwerau gwneud rheoliadau yn Nhabl 5.1 o'r Memorandwm Esboniadol.⁸³

97. Mae'r Bil hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gyhoeddi cod ymarfer (adran 3) a chanllawiau statudol (adran 55). Ceir crynodeb o'r pwerau hyn yn Nhabl 5.2 o'r Memorandwm Esboniadol.⁸⁴

98. Mynegodd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol bryder bod rheoliadau'n cael eu gwneud heb gynnwys y diwydiant:

“Many of the items in Chapter 5 seem to allow for decisions to be made without industry consultation. This should not be the case. The industry knows what is happening on the ground and should be consulted about future changes to ensure the changes are reasonable, workable and not detrimental to providers or guests.”⁸⁵

99. Adleisiwyd y pryder hwn gan ScoutsCymru, a nododd:

“... we are concerned and cautious about the conferment of power via regulations set out within the bill, particularly the ability for Ministers to specify additional types of regulated visitor accommodation as set out in Part 1: Chapter 5(1)(b) of the Explanatory Memorandum. While we understand the need for Senedd approval does enable further consideration of the implications, the lack of reference to a consultation with

⁸² Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 550

⁸³ Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru), Memorandwm Esboniadol, tudalennau 27-36

⁸⁴ Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru), Memorandwm Esboniadol, tudalen 37

⁸⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA 02 - Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

stakeholders who may be affected, could result in unintended, negative consequences.”⁸⁶

100. Roedd Airbnb hefyd yn feirniadol o ddarpariaeth y Bil ar gyfer is-ddeddfwriaeth, gan ddweud ei bod yn rhoi gormod o bŵer yn ôl disgrisiwn i Lywodraeth Cymru i addasu neu amrywio cwmpas y cynllun. Fe wnaethant dynnu sylw’n arbennig at bwerau i ehangu cwmpas y Bil i fathau eraill o lety, a’r ddarpariaeth ar gyfer hyfforddiant.

101. Roedd Cyngor Abertawe o’r farn bod y pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth yn briodol, gan ychwanegu bod hyblygrwydd yn angenrheidiol i addasu safonau a phrosesau dros amser, ond y dylai newidiadau fod yn destun craffu i gynnal tegwch a chymesuredd.⁸⁷

102. Awgrymodd Sykes Holiday Cottages fod nifer yr agweddau dirprwyedig ar y cynllun yn debygol o fod oherwydd yr amserlen gyfyng a’u bod yn creu risg o newid enfawr i’r costau neu’r cwmpas heb graffu priodol, gan achosi mwy o ansicrwydd i’r diwydiant.⁸⁸

103. Dywedodd Bythynnod Gwyliau Gogledd Cymru

“Welsh Government officials themselves have admitted in meetings that part of the reason why there’s so much secondary legislation is because they haven’t had time to actually sort out the details themselves.”⁸⁹

104. Fodd bynnag, dadleuodd Ysgrifennydd y Cabinet fod wastad pethau y mae’n rhaid i chi eu hildio pan ddaw’r gilotîn i lawr ar Fil. Ychwanegodd:

“... there will be some things, which I’ve already discussed in front of other committees, that we will bring forward as Stage 2 amendments, but that is not a unique position in this Bill; it’s just the nature of the way legislation is made.”⁹⁰

⁸⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig: [DTRVA 06 - ScoutsCymru](#)

⁸⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig: [DTRVA 34 - Cyngor Abertawe](#)

⁸⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig: [DTRVA 15 - Sykes Holiday Cottages](#)

⁸⁹ [Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 24](#)

⁹⁰ [Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 406](#)

Goblygiadau ariannol

105. Amcangyfrifir y bydd costau'r Bil, dros gyfnod o 10 mlynedd (2026-27 i 2035-36), yn £41.84 miliwn, a hynny'n cynnwys:

- £9.46 miliwn mewn costau gweinyddol, y byddant i gyd yn cael eu talu gan Lywodraeth Cymru, a fydd yn cynnwys £9.16 miliwn o gostau trosiannol a £0.3 miliwn o wariant cylchol. Mae'r costau trosiannol yn cynnwys y costau datblygu ar gyfer system ddigidol, yr amcangyfrifir y byddant yn £3.93 miliwn. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan y bydd Llywodraeth Cymru yn "archwilio'r cwmpas i leihau'r costau hyn trwy ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial a synergeddau gyda chofrestru llety ymwelwyr".
- £32.37 miliwn mewn costau cydymffurfio i'w talu gan ddarparwyr llety ymwelwyr, yn seiliedig ar yr amcangyfrif bod 30,000 o unedau eiddo sy'n dod o fewn cwmpas cychwynnol y Bil. Fodd bynnag, mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi mai'r "prif ansicrwydd wrth ddatblygu'r amcangyfrifon cost yw prinder data dibynadwy ar nifer y llety hunanddarpar sydd ar gael yng Nghymru".⁹¹

106. Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi, "Tybir y gall rhai darparwyr llety ymwelwyr ddewis trosglwyddo rhai neu'r cyfan o'r costau hyn i ymwelwyr drwy ffioedd uwch, efallai y byddai'n well gan eraill eu hamsugno a derbyn elw llai, er nad yw'n bosibl amcangyfrif y gyfran yn y naill achos neu'r llall".⁹²

107. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn ychwanegu nad yw'n "bosibl rhagweld pa gyfran o ddarparwyr a allai ffafrio gadael y farchnad yn hytrach na chydymffurfio â gofynion statudol".⁹³

108. Roedd Sykes Holiday Cottages yn derbyn bod y Llywodraeth yn ceisio cadw'r costau i lawr ond fe awgrymon nhw fod yr amcangyfrifon yn afrealistig tu hwnt.⁹⁴ Er eu bod cytuno bod yr amcangyfrifon yn afrealistig, nododd PASC hefyd eu bod

⁹¹ Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru), Memorandwm Esboniadol, Crynodeb o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol

⁹² Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru), Memorandwm Esboniadol, Crynodeb o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol

⁹³ Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru), Memorandwm Esboniadol, Crynodeb o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol

⁹⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA 15 – Sykes Holiday Cottages

yn credu bod Llywodraeth Cymru wedi gwrandao ar eu pryderon yn y maes hwn a bod y gost wedi'i nodi â phob ewylllys da.⁹⁵

109. Nododd CLA Cymru:

*"The assessment found that the cost of compliance, combined with other factors currently affecting the viability of maintaining a visitor accommodation business, may cause some VAPs to exit the market thus reducing the number of available premises for visitors to occupy."*⁹⁶

110. Awgrymodd Travel Chapter nad yw'r sôn bod polisïau atebolrwydd cyhoeddus fel arfer yn costio £200-£300 yn cyd-fynd â'u dealltwriaeth hwy am y farchnad ar gyfer polisïau cadarn sydd wedi'u bwriadu'n benodol ar gyfer rhentu tymor byr.⁹⁷ Roedd STAA yn cytuno bod yr amcangyfrifon yn ysgafn iawn,⁹⁸ ac yn ddiweddarach nododd y byddai polisi nodweddiadol ar gyfer llety gwyliau sy'n cynnwys yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn agosach at £500 yr eiddo, felly o bosibl yn ddwywaith cymaint â'r amcangyfrif yn yr asesiad effaith.⁹⁹ Meddent hwy:

*"We need to consider that the scheme won't work as efficiently and seamlessly as maybe has been presented. So, we do certainly think the costs are going to be significantly higher."*¹⁰⁰

111. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet nad yw'r holl gostau hynny'n gostau y byddai rhywun o bosibl yn meddwl amdanynt fel costau go iawn, mai costau cyfle yw rhai ohonynt. Dywedodd y bydd rhaid i bobl dreulio peth amser yn lanlwytho'r tystysgrifau ac yn y blaen, ac y gallent fod yn gwneud rhywbeth arall gyda'r amser hwnnw, felly bod rhaid ystyried y costau hynny fel rhan o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Ychwanegodd:

"The single biggest figure in that is the assumption that we have made in relation to the one of the five requirements that is not at the moment an obligation, and that is public liability insurance. So, we've made assumptions about the percentage

⁹⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig: [DTRVA 16 - Cymdeithas Broffesiynol Hunanarlwywyr y DU \(Cymru\)](#)

⁹⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig: [DTRVA 17 - Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad \(CLA Cymru\)](#)

⁹⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig: [DTRVA 18 - Travel Chapter](#)

⁹⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig: [DTRVA 20 - Cymdeithas Llety Tymor Byr](#)

⁹⁹ [Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 13 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 500](#)

¹⁰⁰ [Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 13 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 511](#)

*of businesses that have it already. We assume about 50 per cent.*¹⁰¹

Y goblygiadau o ran hawliau dynol

112. Mae sylwebaeth Llywodraeth Cymru ar hawliau dynol yn y Memorandwm Esboniadol yn nodi:

“Mae darpariaethau'r Bil wedi'u hasesu'n ofalus, ac rydym yn fodlon eu bod yn gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Mae hyn wedi cynnwys ystyried Erthygl 1 Protocol 1 (diogelu eiddo), Erthygl 6 (hawl i dreial teg) ac Erthygl 8 (hawl i barch am fywyd preifat a theuluol).”¹⁰²

113. Cyhoeddwyd yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer y Bil ar 7 Tachwedd 2025.¹⁰³ Mae crynodeb o asesiadau hawliau dynol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Bil wedi'i nodi ar dudalennau 11 – 13 o'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb.

114. Dadleuodd STAA nad oes digon o fanylion ynghylch sut y daethpwyd i gasgliad Llywodraeth Cymru ar gydnawsedd y Bil â Chonfensiwn Ewrop ar Hawliau Dynol, ac awgrymodd y gallai fod risg y bydd elfennau o'r Bil, gan gynnwys y broses ar gyfer adnewyddu trwyddedau, yn effeithio ar gydnawsedd y Bil, yn enwedig ag Erthygl 1 Protocol 1.¹⁰⁴

115. Rhybuddiodd Cymdeithas Hunanddarparwyr yr Alban a Chynghrair Twristiaeth yr Alban hefyd y gallai Llywodraeth Cymru wynebu heriau mewn perthynas ag Erthygl 1 Protocol 1 (“A1P1”) pe bai'n cyflwyno trwyddedu blynyddol cyffredinol, trwyddedau anhrosglwyddadwy, neu rwystrau sy'n atal busnesau rhag parhau i fasnachu.¹⁰⁵

116. Nododd Ysgrifennydd y Cabinet:

“... one of the first things a Minister has to be satisfied about in bringing forward a Bill is that it is compliant with human rights

¹⁰¹ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 154-156

¹⁰² Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 10.11

¹⁰³ Llywodraeth Cymru, Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru): asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb, Tachwedd 2025

¹⁰⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA 20 – Cymdeithas Llety Tymor Byr

¹⁰⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA 24 – Cymdeithas Hunanddarparwyr yr Alban a Chynghrair Twristiaeth yr Alban

*obligations, and I will have had a significant amount of advice on a range of articles that give me confidence that the Bill is compliant in that way.*¹⁰⁶

117. Yng nghyd-destun y pwerau mynediad ac archwilio yn y Bil, amlinellodd bedwar cam gwahanol y mae'r Bil yn eu sefydlu i sicrhau bod cydymffurfio'n digwydd.¹⁰⁷

Adolygiad ôl-weithredu

118. Bwriedir i'r cynllun trwyddedu fynd yn fyw yn 2028-29, gyda'r hyfforddiant a'r system ar gael i ddarparwyr erbyn hydref 2028, a'r cynllun yn llwyr weithredol erbyn gwanwyn 2029.

119. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, mae Llywodraeth Cymru'n datblygu "cynllun gweithredu manwl i roi'r cynllun trwyddedu ar waith", a fydd yn cynnwys adolygiad ôl-weithredu o'r cynllun a gyflwynir gan y Bil.¹⁰⁸

120. Bydd Llywodraeth Cymru'n "cynnal adolygiad ôl-weithredu, o fewn pum mlynedd ar ôl i'r ddeddfwriaeth ddod i rym", a "disgwylir y bydd y broses adolygu ffurfiol yn dechrau unwaith y bydd y cynllun wedi bod ar waith ers blwyddyn".¹⁰⁹ Nid oes unrhyw ddarpariaeth ar wyneb y Bil mewn perthynas ag adolygiad ôl-weithredu.

121. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym:

"I myself do not think that it is a sensible approach, in making legislation, to make something obligatory that Governments are going to do anyway. ... I think, myself, a mature approach to legislation is that you put things on the face of the Bill where you need to be confident you need to do that to secure an outcome. I'm making a commitment now that there will be a post-implementation review on the terms set out in the

¹⁰⁶ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Tachwedd 2025. Cofnod y Trafodion, paragraff 425

¹⁰⁷ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Tachwedd 2025. Cofnod y Trafodion, paragraffau 425-427

¹⁰⁸ Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 11.1

¹⁰⁹ Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 11.2

explanatory memorandum. You don't need it on the face of the Bill to secure that."¹¹⁰

Ein barn ni

Egwyddorion cyffredinol y Bil

Rydym yn cydnabod y consensws eang gan dystion ynghylch yr hyn y mae'r Bil yn ceisio'i gyflawni. Roedd y rhan fwyaf o'r pryderon yn canolbwyntio ar fanylion ei weithrediad bwriadedig, a'r canfyddiad am ddiffyg cynllunio ac ymgysylltu â'r sector ar ddatblygiad y Bil. Mae'n ymddangos bod cyflwyno'r Bil wedi dal nifer o dystion ar y gamfa; fodd bynnag, clywsom yn ystod ein gwaith craffu fod Llywodraeth Cymru mewn trafodaethau gyda sefydliadau ar fanylion y Bil. Mae'n hanfodol bod y gwaith hwn yn parhau i sicrhau, erbyn i'r Bil gael ei weithredu, bod ei ddarpariaethau wedi'u hegluro a'u deall ar gyfer y sector. Mae hefyd yn allweddol bod y sector yn cael ei gynnwys yn llawn yn y dyfodol mewn gwaith i ddatblygu cynlluniau gweithredu ac is-ddeddfwriaeth o dan y pwerau a gynigir yn y Bil.

Er ein bod yn nodi sylwadau a wnaed na all Bil weithio oni bai bod ei amcan yn glir, rydym wedi ein hargyhoeddi bod gan Ysgrifennydd y Cabinet ffocws ar brif ddiben y Bil hwn, sef hybu datblygiad twristiaeth yng Nghymru. Rydym hefyd yn cydnabod ei sylwadau am bwysigrwydd effaith twristiaeth ar gymunedau lleol, a'r berthynas symbiotig rhyngddynt. Mae twristiaeth yn elfen hanfodol o economi Cymru a dylai'r Bil hwn, ynghyd â'r Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru), gryfhau'r sector, yr ansawdd sydd ar gael i ymwelwyr, eu hyder yn safonau Cymru, a'r manteision y gellir eu dwyn i gymunedau lleol.

Ar ôl ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd i ni, rydym wedi dod i'r casgliad, at ei gilydd, ac o'i ystyried yn ei gyfanrwydd, ein bod yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil. Fodd bynnag, nododd un Aelod amheuan ynghylch cyflwyno'r gofrestr a thrwyddedu ar yr un pryd, a nododd Aelod arall bryder mai'r naratif gwleidyddol sy'n gyrru'r Bil, yn hytrach na'r rheidrwydd i'w gael yn iawn.

Mae'n amlwg bod nifer o feysydd y mae angen i Lywodraeth Cymru eu hystyried a'u hegluro ymhellach. Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar y craffu a wnaethom ar y darpariaethau yn y Bil a'n hargymhellion dilynol, y mae eu hangen i gryfhau'r ddeddfwriaeth hon yn ein tyb ni. Mae nifer o'n hargymhellion yn galw am eglurder ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, sy'n arwydd o'r amserlen yr

¹¹⁰ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 170.

oeddem yn gweithio oddi mewn iddi yn ogystal â lefel y manylder a gyflwynwyd ar wyneb y Bil ac yn ei ddogfennau cysylltiedig.

O ystyried yr ansicrwydd presennol ynghylch agweddau ar y polisi a gynigir yn y Bil, y cyfyngiadau yn y data sydd ar gael a bod cynlluniau ar gyfer ei weithredu yng nghanau cynnar eu datblygiad, rydym ni o'r farn y dylai Senedd yn y dyfodol fod â rôl i graffu ar ddatblygiad polisi parhaus Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad â'r cynllun trwyddedu. Er mwyn gwarantu hyn, dylai cychwyn y darpariaethau trwyddedu yn y Bil fod yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd nesaf.

Ar ben hynny, nodwn fod disgwyl i'r Bil gael ei weithredu o 2029. Er mwyn sicrhau bod y cynigion trwyddedu statudol yn parhau i fod yn addas at y diben a fwriadwyd, credwn y dylai'r darpariaethau hyn gael eu cychwyn yn ddim hwyrach na diwedd y tymor Senedd nesaf a drefnwyd. Os na all Llywodraeth Cymru weithredu'r cynllun trwyddedu erbyn yr adeg honno, yna dylid cyflwyno cynigion newydd gerbron y Senedd ar ffurf Bil trwyddedu newydd, os oes angen.

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Senedd, gan ystyried yr argymhellion yn yr adroddiad hwn, yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru).

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio'r Bil yng Nghyfnod 2 i wneud cychwyn y cynllun trwyddedu yn amodol ar gymeradwyaeth bellach gan y Senedd.

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio'r Bil yng Nghyfnod 2 i sicrhau y gall darpariaethau'r Bil gael eu cychwyn erbyn diwedd y tymor Senedd nesaf a drefnwyd.

Sylfaen dystiolaeth ac amseriad y Bil

Cydnabuwyd diffyg data gan bron pawb a gyfrannodd at ein gweithgarwch casglu tystiolaeth, gan gynnwys Ysgrifennydd y Cabinet, er iddo dynnu sylw at y ffaith y bydd yr wybodaeth hon ar gael pan gwblheir y gofrestr erbyn 2027. Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd gan dystion ynghylch amseriad cyflwyno'r Bil, cyn gweithredu'r gofrestr a'r data a fydd yn dod ohoni. Roedd y siom a deimlai llawer o randdeiliaid ynghylch y diffyg ymgynghori ar Fil drafft hefyd yn amlwg.

Nodwn ymrwymiad Ysgrifennydd y Cabinet i'w Raglen Lywodraethu a'i awydd i fod â'r ddeddfwriaeth yn ei lle ac yn barod ar gyfer pan fydd y gofrestr ar waith. Mae'n amlwg yr hoffai gwblhau'r broses a ddechreuwyd gyda'r Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru). Fel yr ydym yn ei archwilio ymhellach yn yr adroddiad hwn, mae'r Bil yn darparu'r hyblygrwydd angenrheidiol i lywodraeth yn y dyfodol ymateb i'r data a fydd yn cael ei greu drwy'r gofrestr.

Fodd bynnag, fel a nodwyd eisoes, mae'n amlwg bod y sector wedi cael ei synnu gan gyflymder cyflwyno'r Bil hwn, ac mae'n siomedig na chafodd y sector y cyfle i ymgysylltu ar Fil drafft. Ar adeg pan fo'r sector yn ymdopi â chanlyniadau'r hyn y mae Ysgrifennydd y Cabinet yn ei ddisgrifio fel cyfnod gweddol brysur, a phan ellid dadlau ei fod yn wynebu syrffed ar ddeddfwriaeth a pholisi, mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn gweithio i adennill hyder rhanddeiliaid wrth i drafodaethau fynd rhagddynt ar fanylion y Bil. Bydd strwythur gweithredu'r Bil yn hanfodol i'w lwyddiant yn y dyfodol.

Argymhelliad 5. Yn ei ymateb i'r adroddiad hwn, dylai Ysgrifennydd y Cabinet nodi pa drafodaethau sydd wedi digwydd, ac sydd yn yr arfaeth, gyda chynrychiolwyr y diwydiant twristiaeth ar gynigion ar gyfer gweithredu'r Bil.

Is-ddeddfwriaeth

Nodwn y cydbwysedd rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil a'r hyn a adewir i is-ddeddfwriaeth ac, ar ben hynny, sylwadau Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch caniatáu hyblygrwydd yn y meysydd hynny lle darperir ar gyfer rheoliadau. Rydym yn cytuno ei bod yn bwysig nad yw arloesedd yn cael ei dagu gan anhyblygedd a bod y sector yn gallu parhau i fod yn ddeinamig. Fodd bynnag, bydd darpariaethau penodol yn y Bil yn gofyn am weithdrefnau craffu gwell, ac rydym wedi tynnu sylw at y rheini yn y pwyntiau perthnasol yn yr adroddiad hwn.

Rydym hefyd yn nodi'r sylwadau gan Ysgrifennydd y Cabinet y bydd yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2, fel a drafodwyd eisoes gyda phwyllgorau eraill, a byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth yn hyn o beth cyn y ddadl Cyfnod 1.

Argymhelliad 6. Cyn y ddadl Cyfnod 1, dylai Ysgrifennydd y Cabinet nodi pa welliannau y mae'n bwriadu eu cyflwyno yng Nghyfnod 2.

Goblygiadau ariannol

Roedd pryder ymhlith tystion ynghylch yr amcangyfrifon a nodwyd yn y Memorandwm Esboniadol, er ein bod yn nodi sylwadau sy'n cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi gwrandao ar y sector ac yn ceisio cadw costau'n isel. Fodd bynnag, mae'n anodd dod i gasgliadau pan nad yw manylion gweithredu'r Bil yn hysbys. Bydd angen adolygu'r costau'n fanwl wrth i ddata o'r gofrestr gael ei gasglu ac i'r system drwyddedu gael ei datblygu ymhellach, gan gynnwys manylion ynghylch pa gyrff fydd yn rhan o wahanol agweddau ar ei weithredu.

Nodwn fod y Pwyllgor Cyllid wedi archwilio'r goblygiadau ariannol ymhellach yn ei adroddiad ar y Bil.

Y goblygiadau o ran hawliau dynol

Rydym wedi bod yn ofalus yn ystod ein gweithgarwch craffu i roi ystyriaeth ddyladwy i'r materion hawliau dynol y mae'r Bil yn eu codi. Rydym wedi cael tystiolaeth ysgrifenedig a llafar sydd wedi cynorthwyo'r ystyriaeth honno ac rydym yn ddiolchgar am y cyfraniadau hyn.

Nodwn asesiad hawliau dynol Llywodraeth Cymru yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb sy'n cyd-fynd â'r Bil ac a drafodwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet yn ei dystiolaeth.

Rydym hefyd yn ymwybodol bod y llysoedd yn gyffredinol yn cydnabod, yng nghyd-destun y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ("ECHR"), mai cynrychiolwyr etholedig sydd yn y sefyllfa orau i gydbwysu hawliau unigolion yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn erbyn budd cyffredinol ehangach y cyhoedd.

Rydym yn cytuno ag Ysgrifennydd y Cabinet bod Erthygl 6, Erthygl 8 ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (A1P1) i'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn berthnasol i agweddau ar y Bil ac fe drafodir y rhain isod.

Erthygl 6

Mae Erthygl 6 yn nodi bod gan bob person yr hawl i gael treial neu wrandawriad teg a chyhoeddus os cânt eu cyhuddo o drosedd; neu mewn anghydfod gwirioneddol a difrifol ynghylch hawl sifil neu rwymedigaeth gyfreithiol.

Mae adran 20(4)(a) a 21(2)(b) o'r Bil yn caniatáu i Weinidogion Cymru wrthod cais am drwydded llety ymwelwyr os nad ydynt wedi'u hargyhoeddi bod y gofynion

cymeradwyo yn adran 19 o'r Bil wedi eu hateb. Mae'r rhain yn cynnwys y safonau ffitrwydd cyffredinol a phenodol a bennir yn adrannau 7 ac 8. Mae adran 23(2) yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddirymu trwydded am dorri amodau trwydded.

Mae Adran 28 o'r Bil yn caniatáu i ddarparwr llety ymwelwyr apelio yn erbyn penderfyniadau Gweinidogion Cymru yn yr amgylchiadau hyn gerbron y Tribiwnlys Haen Gyntaf. Tribiwnlys diduedd ac annibynnol yw hwn a enwir yn aml fel corff apelïadau mewn deddfwriaeth Gymreig.

Mae'r Bil hefyd yn creu cyfres o droseddau (yn adrannau 32-5 a 47) a fyddai'n cael eu clywed mewn Llys Ynadon.

Felly, rydym yn fodlon bod y darpariaethau hyn yn cydymffurfio ag Erthygl 6.

Erthygl 8

Mae Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn nodi bod gan bob person yr hawl i barch at ei fywyd preifat a theuluol, ei gartref a'i ohebiaeth. Fodd bynnag, nid yw'r hawl yn hawl lwyr a gall y wladwriaeth ymyrryd â hi os yw gwneud hynny, at ei gilydd, er budd y cyhoedd, yn gymesur ac yn cynnwys mesurau diogelwch priodol. Gall unrhyw ddeddfwriaeth sy'n rhoi'r hawl i gorff gorfodi fynd i mewn i eiddo preifat effeithio ar yr hawliau hyn.

Cododd sawl tyst bryderon ynghylch y pwerau a nodir yn adrannau 30 a 31 o'r Bil sy'n caniatáu i berson awdurdodedig fynd i mewn i lety ymwelwyr trwyddedig at ddibenion archwilio a gorfodi. Roedd rhai tystion yn gwrthwynebu unrhyw fynediad i lety ymwelwyr pan fydd ymwelydd yn bresennol ar y sail bod pŵer o'r fath yn ormodol ac yn ymwithiol.

Mae Adran 30 yn caniatáu hawl mynediad i fangre i ganfod a yw darparwr llety ymwelwyr wedi rhoi gwybodaeth ffug neu gamarweiniol mewn perthynas â'i drwydded, neu wedi torri'r drwydded. Os nad yw darparwr llety ymwelwyr rheoleiddiedig yn rhoi caniatâd, neu os oes sail i gredu bod llety ymwelwyr rheoleiddiedig yn un heb drwydded, mae adran 31 yn caniatáu cyflwyno cais i ynad heddwch (llys ynadon) am warant at ddibenion mynd i mewn ac archwilio. Felly dim ond mewn amgylchiadau penodol, cyfyngedig y gellid defnyddio grym i fynd i mewn i lety ymwelwyr a byddai bob amser yn amodol ar oruchwyliaeth farnwrol.

Felly, rydym yn fodlon bod y darpariaethau hyn yn cydymffurfio ag Erthygl 8. Credwn fod y pwerau mynediad yn taro cydbwysedd priodol rhwng hawliau

darparwyr llety ymwelwyr a budd y cyhoedd o ran sicrhau bod llety ymwelwyr yn cydymffurfio â'r cynllun trwyddedu, a'r hyder cysylltiedig yn y sector twristiaeth y bydd hyn yn ei ddwyn.

Erthygl 1 Protocol 1

Mae Erthygl 1 Protocol 1 yn gwarantu'r hawl i fwynhau eiddo mewn heddwch. Mae'n hawl amodol, sy'n golygu y gall y wladwriaeth osod rheolaethau ar eiddo o dan rai amgylchiadau. Y prawf allweddol yw a yw'r ymyrraeth honno'n gymesur ac yn taro cydbwysedd teg rhwng anghenion y gymuned a pherchennog yr eiddo unigol.

Tynnodd Cymdeithas Hunanddarparwyr yr Alban ein sylw at sawl her gyfreithiol i gynllun trwyddedu llety'r Alban ac fe amlygodd y potensial ar gyfer diffyg cydymffurfio ag Erthygl 1 Protocol 1.

Rydym wedi ystyried y materion hyn yn ofalus yn ystod ein trafodaethau. Rydym wedi ein sicrhau bod y cynigion trwyddedu yn y Bil yn wahanol i ddeddfwriaeth yr Alban o ran yr agweddau ar gynllun yr Alban a fu'n sail i her lwyddiannus yn ystod y broses o weithredu'r ddeddfwriaeth. Yn benodol, rydym yn nodi nad yw cysylltu cymhwysra i gael trwyddedau â rheolaethau cynllunio, ffafrio llety mewn arddulliau penodol dros eraill, gorfodi dodrefn mewnol penodol a meini prawf gwahanol ar gyfer trwyddedau dros dro yn nodweddion ar y cynigion yn y Bil hwn. Rydym wedi cael ein sicrhau ymhellach gan gadarnhad Ysgrifennydd y Cabinet bod Llywodraeth Cymru wedi dysgu o brofiad yr Alban wrth baratoi'r Bil hwn.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod rheoli eiddo preifat drwy drwyddedu yn gynhenid i'r ddau gynllun. Felly, rydym wedi ystyried nodau'r cynigion ar gyfer cynllun trwyddedu yn y Bil a'r budd i'r cyhoedd y mae'n ceisio'i gyflawni.

Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi pwysleisio mai prif ddiben y Bil yw hybu twristiaeth Cymru. Mae'n ceisio cyflawni hyn drwy roi sicrwydd i ymwelwyr ynghylch ansawdd llety trwyddedig yng Nghymru. Esboniodd hefyd nad yw'r Bil ond yn gosod gofynion ychwanegol cymedrol ar ddarparwyr llety ymwelwyr, megis cael yswiriant atebolrwydd cyhoeddus, o'i gymharu â'u rhwymedigaethau presennol. Y tu hwnt i'r gofyniad i gael trwydded, bydd angen i ddarparwr ymgyswddu â'r gofynion deddfwriaethol, gwneud cais am drwydded, cael hyfforddiant o bosibl a thalu ffioedd cysylltiedig.

Rydym wedi ein hargyhoeddi bod gan y cynigion hyn sail glir o ran ceisio hybu twristiaeth a gwella safonau llety ymwelwyr yng Nghymru. Rydym hefyd yn nodi

bod yr ymyrraeth â hawliau perchnogion eiddo unigol yn gyfyngedig o'i gymharu â'u rhwymedigaethau statudol presennol. Rydym wedi ein hargyhoeddi bod y Bil yn cydbwysu hawliau darparwyr llety ymwelwyr yn briodol â'r budd cyffredinol a'i fod felly'n cydymffurfio ag Erthygl 1 Protocol 1.

Fodd bynnag, rydym hefyd yn ymwybodol o'r ansicrwydd a fynegwyd gan rai tystion ynghylch gweithredu'r cynllun, gan gynnwys pryderon ynghylch darparwyr yn methu â masnachu tra bo ceisiadau am drwyddedau (neu am adnewyddu trwyddedau) yn cael eu prosesu. Clywsom hefyd bryderon ynghylch y defnydd arfaethedig o bwerau gwneud rheoliadau i ragnodi nodweddion pwysig ar y cynllun megis gosod ffioedd ac adnewyddu trwyddedau.

Felly, rydym yn nodi bod yn rhaid i ddefnydd y pwerau hyn yn y dyfodol, ac yn fwy cyffredinol y modd y gweithredir y cynllun, geisio osgoi gosod rhwystrau diangen i allu darparwyr llety ymwelwyr i gynnal eu busnes, a allai fod yn sail i her gyfreithiol yn y dyfodol.

Rydym wedi cael ein sicrhau gan lythyr Ysgrifennydd y Cabinet dyddiedig 18 Tachwedd 2025, a eglurodd fwriad y Llywodraeth i ddefnyddio pwerau trosiannol a gynigir yn y Bil i hwyluso'r broses o gyflwyno'r cynllun a chaniatáu i ddarparwyr barhau i weithredu nes bod eu ceisiadau am drwydded wedi'u penderfynu. Rydym hefyd yn nodi na allai rheoliadau yn y dyfodol a wneir o dan y pwerau yn y Bil wneud darpariaeth sy'n anghydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Adolygiad ôl-weithredu

Ni chawsom ein hargyhoeddi gan ddadl Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch pam nad oes angen adolygiad ôl-weithredu o dan y Bil. Efallai na fydd ymrwymiad a wneir gan Lywodraeth Cymru ar ei ffurf bresennol yn cael ei gynnal gan weinyddiaeth yn y dyfodol. Bydd deall effaith y Bil yn hanfodol i lywio polisi twristiaeth yn y dyfodol. Hoffem weld gofyniad am adolygiad ôl-weithredu yn y Bil. O ystyried bod disgwyl i'r darpariaethau trwyddedu gael eu gweithredu yn 2029, credwn y dylai'r adolygiad hwn ddigwydd fan bellaf erbyn diwedd tymor yr Wythfed Senedd, sydd i fod i ddod i ben ym mis Ebrill 2034.

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio'r Bil yng Nghyfnod 2 i ymrwymo i gynnal a chyhoeddi adolygiad o weithrediad ac effaith y darpariaethau yn y Bil erbyn mis Ebrill 2034 fan bellaf.

4. Datblygu Twristiaeth

122. Mae Rhan 1 yn cyflwyno'r Bil ac yn sefydlu, ynghyd â Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025, bod y Bil wedi'i fwriadu i ffurfio rhan o God o gyfraith Cymru. Nodir yn y Memorandwm Esboniadol:

"Yn gyntaf, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi pob deddfiad sy'n rhan o'r Cod gyda'i gilydd. Bydd hyn yn helpu i sicrhau y gall defnyddwyr y ddeddfwriaeth ddod o hyd i'r holl ddeddfwriaeth berthnasol mewn un lle."¹¹¹

123. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai'r cod yn gwneud y gyfraith yn fwy hygyrch, yn haws i'w deall a'i defnyddio, ac ar gael yn ddwyieithog.¹¹²

124. Mae Rhan 2 yn nodi cyfrifoldebau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â datblygu twristiaeth yng Nghymru.

125. Mae Adran 2 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw i liniaru effeithiau cymdeithasol ac amgylcheddol ymwelwyr a chynnal a hybu defnydd o'r Gymraeg wrth arfer eu swyddogaethau datblygu twristiaeth.

126. Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet mai adran ailddatgan yw Rhan 2. Meddai:

"It augments existing powers in two limited ways. First of all, it introduces the need to have regard to the importance of mitigating the social and environmental impacts of tourism and maintaining and promoting the Welsh language. Those are introduced in this section, but they are consistent with the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 and they're consistent with the language used in the visitor levy Bill.

And the second way in which you could argue that existing powers of Welsh Ministers are augmented in Part 2 is that Part 2 does have an express power to issue a code of practice in relation to the Bill. Now, I believe that it would have been possible to have issued a code of practice under the general tourism development powers. So, I think my argument would

¹¹¹ Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.13

¹¹² Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 7

be that this is only new in the sense that it is an explicit power to do something where an implicit power already existed.”¹¹³

Cod ymarfer ar dwristiaeth

127. Mae Adran 3 yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi cod ymarfer sy’n darparu canllawiau ynghylch arfer gorau mewn perthynas ag amwynderau, cyfleusterau a gwasanaethau twristaidd, a darparu llety i ymwelwyr yng Nghymru. Gall y cod ymarfer ddarparu canllawiau ar faterion megis ansawdd mangreodedd a ddefnyddir ar gyfer llety ymwelwyr, gwasanaeth cwsmeriaid, a hygyrchedd, neu unrhyw fater arall y mae Gweinidogion Cymru yn ei ystyried yn briodol.

128. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet mai nod y cod ymarfer yw bod mor ddefnyddiol â phosibl i bobl er mwyn sicrhau eu bod yn gwybod beth a ddisgwyllir ganddynt, a’u bod yn gallu dod o hyd i ffyrdd o gydymffurfio â hynny mor rwydd â phosibl.¹¹⁴

129. Pwysleisiodd Booking.com y dylai canllawiau fod yn anhygoel o glir i fusnesau. Gwnaethant nodi:

“... there can be a lot of misinformation that goes around. [...] There’s all of this pressure on operators, and, rightly or wrongly, they might feel as if they are not welcome to run their business, and so they might feel as if they want to leave the sector— run before it might become a problem. And that might not necessarily be based on evidence or on the actual reality of what licensing might mean for them, but ultimately it is creating fear within the sector.”¹¹⁵

Ein barn ni

Rydym yn nodi ac yn croesawu bod y Bil yn darparu ar gyfer creu Cod o gyfraith Cymru ac yn benodol sylwadau Ysgrifennydd y Cabinet y bydd hyn yn gwneud y ddeddfwriaeth yn fwy hygyrch. Ar ben hynny, nodwn fod Rhan 2 yn bennaf yn ailddatgan pwerau presennol. Er nad yw hon yn elfen o’r Bil yr ydym wedi cael tystiolaeth fanwl arni, rydym yn fodlon cefnogi’r dull hwn.

¹¹³ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 429-430.

¹¹⁴ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 152.

¹¹⁵ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 63.

Bydd y cod ymarfer a gyhoeddir o dan adran 3 yn offeryn allweddol i'r diwydiant ac mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â sefydliadau perthnasol i sicrhau bod y cod yn cynnig canllawiau mor drylwyr â phosibl i gefnogi'r sector yn y ffordd orau.

Argymhelliad 8. Wrth ymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru nodi pa waith a wnaed hyd yma ar ddatblygu'r cod ymarfer a'r canllawiau cysylltiedig. Ar ben hynny, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o fanylion am gynnwys disgwyliedig y cod.

5. Rheoleiddio llety ymwelwyr

Ystyr llety ymwelwyr rheoleiddiedig

130. Mae Adran 5 yn rhoi diffiniad o “llety ymwelwyr rheoleiddiedig”. Mae hyn yn cyfeirio at lety hunangynhwysol, hunanddarpar a ddarperir mewn adeilad, cartref symudol, llestr, neu gerbyd arall ar gyfer arosiadau tymor byr (hyd at 31 noson) at ddibenion busnes, hamdden, neu addysgol. I fod yn gymwys, rhaid i'r llety gynnwys cyfleusterau cysgu, toiled/glanweithdra, a choginio a ddarperir at ddefnydd yr ymwelydd yn unig. Ar gyfer cartref symudol, llestr neu gerbyd arall, dim ond y rhai sydd wedi'u lleoli'n barhaol neu'n lled-barhaol mewn un lle sydd wedi'u cynnwys. Nid yw'r diffiniad o “llety ymwelwyr rheoleiddiedig” yn cynnwys gwesty, tŷ llety, llety gwely a brecwast, hostel ieuenctid, byncws, ysgubor gwersylla, na safle gwersylla a/neu garafanau a drwyddedwyd o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936 neu Ddeddf Safleoedd Carafanau a Rheoli Datblygu 1960. Nid yw llety a ddarperir gan gyrff cyhoeddus at ddibenion penodol (e.e. digartrefedd neu gymorth lloches) wedi'i gynnwys o fewn y diffiniad ychwaith.

131. Mae'r adran hon hefyd yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddiwygio'r diffiniad, ac felly o bosibl estyn cwmpas y cynllun trwyddedu, yn y dyfodol. Cyn gwneud hynny rhaid iddynt “ymgynggori ag unrhyw bersonau y maent yn ystyried eu bod yn briodol”.

132. Roedd BH&HPA yn gefnogol i ffocws cychwynnol y Bil ar lety hunangynhwysol, hunanddarpar gan ei fod yn osgoi dyblygu gofynion presennol ar gyfer diogelwch, bylchau ac arolygu gan awdurdodau lleol, i fusnesau parciau gwyliau trwyddedig.¹¹⁶

133. Mae CLILC “yn cymeradwyo'r ffaith y gall y cynllun gael ei gyflwyno dros amser i gynnwys ystod ehangach o eiddo fel carafanau a meysydd gwersylla sydd, gellir dadlau, yn fwy problemus na llety hunanddarpar”.¹¹⁷

134. Fodd bynnag, awgrymodd FSB Cymru fod risg i fframwaith rheoleiddio cyson yn yr hirdymor os dechreuir â llety hunanarlwyo.¹¹⁸

135. Fe wnaeth STAA hefyd gwestiynu'r ffaith bod y cwmpas yn gyfyngedig i eiddo hunangynhwysol yn unig. Os mai nod y cynllun yw sicrhau bod ymwelwyr mewn llety diogel, awgrymodd STAA fod angen cynnwys ystafelloedd sy'n cael eu

¹¹⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig: [DTRVA 21 - Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain](#)

¹¹⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig: [DTRVA 22 - Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru \(CLILC\)](#)

¹¹⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig: [FSB Cymru \(Ffederasiwn Busnesau Bach\)](#)

gosod hefyd ac nid dim ond llety hunangynhwysol. Ychwanegodd STAA y gallai'r diffiniad o 'hunangynhwysol' fel y'i nodir yn adran 5 arwain at nifer fawr o achosion ffiniol ac y gallai olygu bod rhai gweithredwyr yn cwmpo y tu allan i'r gofyniad trwyddedu yn anfwriadol.¹¹⁹

136. Roedd Travel Chapter a Sykes Holiday Cottages hefyd yn gresynu bod pobl sy'n gosod ystafelloedd sbâr heb eu cynnwys, gan nodi y byddant yn fwy o risg na gweithredwyr llety gosod tymor byr traddodiadol.¹²⁰

137. Fodd bynnag, roedd Airbnb yn anghytuno, gan ddweud:

*"... the guest experience of staying in a spare room is very different to the experience of staying in traditional self-contained, self-catering accommodation, and people will choose that type of accommodation because that's the experience that they want. When you look at the risk profile, it's far less likely to have health and safety risks associated with spare rooms, because these are already properties that people are living in, on a residential basis, full-time."*¹²¹

138. Nododd Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad ("CLA Cymru") ei phryder ynghylch ffocws cychwynnol y Bil, gan ddatgan: "A large majority of rural holiday accommodation providers are self-catered accommodation, putting an additional burden on rural business owners."¹²²

139. Awgrymodd MWT Cymru y byddai estyn trwyddedu i bob sector llety yn sicrhau tegwch ac yn dileu dryswch rhwng busnesau "cofrestredig" a "thrwyddedig". Fe ychwanegon nhw:

*"A unified approach would eliminate the need to determine which parts of a mixed-use business require licensing and which do not and would support the 'level playing field' and ensure standards and safety across the sector."*¹²³

140. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet bod ffocws cychwynnol y Bil ar lety hunangynhwysol, hunanarlwyo oherwydd bod tua 75 y cant o ddarparwyr llety

¹¹⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig: [DTRVA 23 – Cymdeithas Llety Tymor Byr](#)

¹²⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig: [DTRVA 18 – Travel Chapter](#); tystiolaeth ysgrifenedig: [DTRVA 15 – Sykes Holiday Cottages](#)

¹²¹ [Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 58](#)

¹²² Tystiolaeth ysgrifenedig: [DTRVA 17 – Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad \(CLA Cymru\)](#)

¹²³ Tystiolaeth ysgrifenedig: [DTRVA 26 – MWT Cymru \(Twristiaeth Canolbarth Cymru\)](#)

wedi'u cynnwys o dan y diffiniad hwnnw, sydd felly'n golygu dechrau â'r rhan fwyaf o lety yng Nghymru.¹²⁴ Ychwanegodd:

*"But the Bill is futureproofed because it allows a future Government to add other forms of accommodation into the licensing regime, should a Government choose to do so."*¹²⁵

141. Eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet yn ddiweddarach fod cyfundrefnau trwyddedu o wahanol fathau eisoes ar waith ar gyfer rhannau o lety arall, a bod y Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer sut y byddech chi'n trosglwyddo o'r gyfundrefn honno i'r math yma o gyfundrefn yn y dyfodol, pe bai safleoedd carafanau a gwersylla yn cael eu cynnwys yn y gyfundrefn drwyddedu.¹²⁶

Ffitrwydd Darparwyr llety ymwelwyr

142. Mae'r Bil yn creu'r cysyniad o "ffitrwydd i fod yn llety ymwelwyr", sy'n nodi'r safonau y mae'n rhaid i lety ymwelwyr rheoleiddiedig eu bodloni. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn egluro bod "hyn yn seiliedig ar y safon "ffit i bobl fyw ynddynt" o ran anheddau yn y sector rhentu preifat".¹²⁷

Ystyr ffitrwydd i fod yn llety ymwelwyr

143. Mae adran 6 yn egluro bod mangre lle y darperir llety ymwelwyr rheoleiddiedig yn cael ei ystyried yn "ffit" oni bai ei fod yn methu â bodloni naill ai'r safon gyffredinol o ran ffitrwydd yn adran 7, neu unrhyw safonau ffitrwydd penodol perthnasol a nodir yn y Bil yn adrannau 9-13. Ar gyfer y safon gyffredinol, rhaid i'r methiant fod yn ddigon difrifol i beri risg i ddiogelwch neu gysur, fel nad yw'r "fangre yn rhesymol addas" i ymwelwyr.

144. Mae'r adran hon hefyd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ddiwygio'r Ddeddf i ychwanegu at y safonau y mae'n ofynnol i fangreoedd eu bodloni neu eu newid.

¹²⁴ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 48

¹²⁵ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 48

¹²⁶ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 72 a 74

¹²⁷ Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru), Memorandwm Esboniadol, Nodiadau Esboniadol

Ffitrwydd i fod yn llety ymwelwyr: safon gyffredinol

145. Mae Adran 7 yn disgrifio'r safon gyffredinol o ran ffitrwydd y mae'n rhaid i lety ymwelwyr rheoleiddiedig ei bodloni. Mae'r gofynion o dan y safon gyffredinol wedi'u rhannu'n ddwy ran: y rhai sy'n ymwneud â'r risg o niwed i ymwelwyr (megis bod y fangre yn strwythurol sefydlog, yn hylan ac yn ddiogel, a bod y fangre ac unrhyw eitemau gosod mewn cyflwr da); a'r rhai sy'n ymwneud ag amwynder ymwelwyr (megis bod gan y fangre ddarpariaeth ddigonol o ddulliau goleuo, gwresogi ac awyru, draenio, lle ar gyfer cysgu a chyfleusterau coginio a glanweithdra priodol).

146. Mae adran 7, mewn cyfuniad ag adran 6, yn golygu, os nad yw unrhyw un neu ragor o'r gofynion hyn, os ydynt yn gymwys, wedi ei fodloni neu eu bodloni i'r graddau naill ai y byddai risg o niwed i'r ymwelydd neu "oherwydd y byddai ansawdd profiad yr ymwelydd yn cael ei niweidio i raddau digonol", yna nid yw'r safon gyffredinol o ran ffitrwydd wedi ei chyrraedd ac nid yw'r fangre yn ffit i fod yn llety ymwelwyr.

147. Cytunodd y tystion fod angen eglurder pellach mewn perthynas â'r safon gyffredinol. Awgrymodd Airbnb y dylai'r gofynion yn adran 7 fod yn llawer cliriach ac wedi'u diffinio'n llawer gwell, gan ychwanegu "It's a lot of exposure to liability for obligations where it's still unclear about what's required to meet them."¹²⁸

148. Awgrymodd PASC fod Adran 7(1)(a) a (b) yn cynnwys termau sydd yn eu hanfod yn oddrychol ac yn aneglur yn weithredol ac, ar y cyfan, bod adran 7 yn mynd y tu hwnt i'r hyn sy'n rhesymol ofynnol i sicrhau llety ymwelwyr diogel ac yn ymgorffori gormod o oddrychedd yn y prawf trwyddedu.¹²⁹ Roedd MWT Cymru yn cytuno bod adran 7 yn dibynnu ar dermau goddrychol.¹³⁰

149. Dywedodd STAA fod eu haelodau o'r farn bod adran 7 o'r Bil yn mynd y tu hwnt i'r rhwymedigaethau cyfreithiol presennol ar gyfer darparwyr llety o ran iechyd a diogelwch a hynny'n ddiangen.¹³¹

150. Yn ôl PASC, er mwyn gallu egluro'n iawn beth mae'r adran honno'n ei olygu, bydd yn rhaid mynd trwy beth wmbredd o ganllawiau, ac fe ddadleuon nhw y byddai cwsmeriaid yn gadael adolygiadau gwael pe na baent yn fodlon ar y

¹²⁸ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Tachwedd 2025. Cofnod y Trafodion, paragraff 145

¹²⁹ Tystiolaeth ychwanegol - PASC UK (1)

¹³⁰ Tystiolaeth ychwanegol - MWT Cymru (Twristiaeth Canolbarth Cymru)

¹³¹ Tystiolaeth ychwanegol - Cymdeithas Llety Tymor Byr (STAA)

cyfleusterau a gynigir.¹³² Cytunodd Twristiaeth Gogledd Cymru ei bod yn dirwedd hunanreoleiddiol iawn lle mae rhai o'r safonau goddrychol yn y cwestiwn gydag adolygiadau gan gymheiriaid.¹³³

151. Fe wnaeth tystion gan gynnwys MWT Cymru a Twristiaeth Gogledd Cymru gymharu'r safon gyffredinol â chynllun graddio Croeso Cymru. Meddai Twristiaeth Gogledd Cymru

*"... when it comes to enforcement and entering a premises, it would be, well, on which elements is entry being enforced, because the safety standards are all matters of fact, and then some of the fitness for purpose, some of those are subjective standards and overlaid with an element of Visit Wales's grading scheme."*¹³⁴

152. O ran gorgyffwrdd â chynllun graddio Croeso Cymru, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod wedi bod mewn trafodaethau gyda Croeso Cymru, a bod ystyriaeth eisoes wedi cael ei rhoi i sut y byddai'r ddwy gyfundrefn yn cael eu hintegreiddio. Nododd:

*"the future for the industry in Wales is to be a quality industry. And that's how Visit Wales would use the licence as a basis to move the industry further in that direction."*¹³⁵

153. Awgrymodd CLILC fod y Bil yn ymwneud â sicrhau safonau uchel, ac ychwanegodd ei fod hefyd yn ymwneud â darparu rhai mesurau rheolaeth lle nad yw perfformiad a safonau yn bodloni ein disgwyliadau fel awdurdodau lleol, nid dim ond o ran yr arlwy i ymwelwyr ond hefyd o ran problemau niwsans fel sŵn, ymddygiad gwrthgymdeithasol, cyflwyno gwastraff.¹³⁶ Fe ychwanegon nhw'n ddiweddarach y byddai angen canllawiau ar y materion hynny, er mwyn sicrhau cysondeb.¹³⁷

¹³² Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 312

¹³³ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 13 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 483

¹³⁴ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 13 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 482

¹³⁵ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 505

¹³⁶ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 13 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 10

¹³⁷ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 13 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 153

154. Awgrymodd Cymdeithas yr Iaith fod “tystiolaeth gan bobl sydd eisoes yn byw drws nesa i dai sydd wedi eu troi yn llety gwyliau yn dangos eu bod amharu ar eu preifatrwydd a bod lefelau sŵn yn amharu ar eu bywyd bob dydd”.¹³⁸

155. Dadleuodd tystion gan gynnwys PASC a Travel Chapter fod mecanweithiau eraill eisoes ar waith i fynd i'r afael â materion gan gynnwys gwastraff ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.¹³⁹

Addasrwydd i fod yn llety ymwelwyr – safonau penodol

156. Mae Adran 8 yn diffinio'r pum safon benodol o ran ffitrwydd: atal tân; cynnal a chadw trydanol; cynnal a chadw o ran nwy; risg carbon monocsid; ac yswiriant. Yna disgrifir pob un o'r safonau hyn yn fanylach yn adrannau 9-13.

157. Awgrymodd CLILC y dylid cynnwys “prawf unigolyn cymwys ac addas neu ofyniad tebyg” fel rhan o amodau'r drwydded ar gyfer pob darparwr llety ymwelwyr.¹⁴⁰

158. Roedd Uwch Swyddog Technegol o Gyngor Sir Ddinbych yn croesawu cynnwys gofyniad nad yw'r cyflenwad dŵr wedi ei halogi, ond pwysleisiodd y canlynol:

“... in respect of premises that are served by a Private Water Supply, I feel it needs to made clear that premise operator should be seeking confirmation of compliance with drinking water standards via the Local Authority or using a contractor that the Local Authority is willing to accept as a properly accredited water sampler.”¹⁴¹

159. Roedd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn cytuno y gallai'r Bil arwain at gynnydd sylweddol yn y galw am aseswyr risg tân annibynnol.¹⁴² Meddai Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru:

¹³⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig: [DTRVA 13 – Cymdeithas yr Iaith](#)

¹³⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig: [DTRVA 16 – Cymdeithas Broffesiynol Hunanarlwywyr y DU \(Cymru\)](#); tystiolaeth ysgrifenedig: [DTRVA 18 – Travel Chapter](#)

¹⁴⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig: [DTRVA 22 – Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru \(CLILC\)](#)

¹⁴¹ Tystiolaeth ysgrifenedig: [DTRVA 03 - Philip Caldwell, Uwch Swyddog Technegol \(Iechyd yr Amgylchedd\)](#)

¹⁴² Tystiolaeth ysgrifenedig: [DTRVA 29 – Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru](#)

*"The scale and timing of this increase will depend on how the licensing framework is implemented and whether formal qualification standards are established."*¹⁴³

160. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym:

*"... we start with, I would describe it as, a fairly basic set of standards that will have to be met in order to get a licence. A future Government could choose to augment those standards to include, for example, some quality standards in them, and the Bill is futureproofed because it provides a power to allow that to happen."*¹⁴⁴

161. Ychwanegodd yn ddiweddarach:

"... four of the five specific requirements are things that they already have to do. They have to demonstrate that they are doing them for the purposes of obtaining a licence, but they ought not to be offering accommodation now if they don't have those things already in place.

*There is only one additional requirement, and that's a requirement that we think about 75 per cent of the industry is probably doing anyway. But they don't currently have a requirement, a legal requirement, to have public liability insurance, and they will, as a result of this Bill, if they are to obtain a licence."*¹⁴⁵

162. Pan ofynnwyd iddo ynghylch ychwanegu safonau at y Bil, er enghraifft tystysgrif perfformiad ynni, pwysleisiodd Ysgrifennydd y Cabinet ei farn y dylai'r Bil ddechrau'n syml, a nododd fod mwy o rwymedigaethau yn cael eu gosod ar ddarparwyr bob tro yr ychwanegir amod arall.¹⁴⁶

163. Mewn perthynas â'r darpariaethau ar gyfer atal tân, nododd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru:

¹⁴³ Llythyr oddi wrth Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru, 14 Tachwedd 2025

¹⁴⁴ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 48

¹⁴⁵ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 499-500

¹⁴⁶ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 123

“Section 9(2) of The Bill places the responsibility on the Visitor Accommodation Provider (VAP) to carry out a fire risk assessment. However, this requirement may be impractical and could lead to inconsistent or inadequate assessments as VAPs, particularly those operating small-scale or domestic-type visitor accommodation, are unlikely to possess the necessary competence or technical understanding to carry out a compliant assessment.”¹⁴⁷

164. Fe ychwanegon nhw:

“The wording of the Bill should be amended to require the VAP to ensure a suitable and sufficient fire risk assessment is completed by a competent person, rather than the provider themselves conducting it. This would promote higher standards of safety and reduce the likelihood of non-compliant or inadequate assessments.”¹⁴⁸

165. Pwysleisiodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y Bil yn “glir mai darparwr y llety i ymwelwyr sy’n gyfrifol am yr asesiad hwn yn y pen draw, fel y mae’n gyfrifol am roi rhagofalon priodol ar waith”, ac fe ychwanegodd ei fod yn “arfer cyffredin ac yn gwbl gyfreithlon i bersonau cyfrifol gyflawni’r ddyletswydd hon drwy gontractio gyda darparwr allanol, neu ddirprwyo’r dasg i berson arall sydd â’r cymwysterau priodol.”¹⁴⁹

166. O ran larymau mwg, awgrymodd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru fod y ddarpariaeth yn y Bil i’w gweld fel pe bai’n awgrymu y byddai gosod un larwm mwg ar bob llawr yn ddigon i fodloni’r gofynion diogelwch lleiaf. Fe ychwanegon nhw:

“This approach risks oversimplifying fire safety provision and could lead to inadequate protection in certain types of visitor accommodation.”¹⁵⁰

167. Er bod Ysgrifennydd y Cabinet wedi dadlau bod y dull gweithredu yn y Bil yn gyson â’r dull gweithredu yn Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffitrwydd Annedd i Bobl Fyw Ynddi) (Cymru) 2022, cadarnhaodd ei fod “wedi gofyn i swyddogion ystyried y gofynion o dan adran 9 yn fwy cyffredinol, gyda’r bwriad o ystyried a ellid neu a

¹⁴⁷ Llythyr oddi wrth Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru, 14 Tachwedd 2025

¹⁴⁸ Llythyr oddi wrth Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru, 14 Tachwedd 2025

¹⁴⁹ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 27 Tachwedd 2025

¹⁵⁰ Llythyr oddi wrth Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru, 14 Tachwedd 2025

ddylid gwneud unrhyw welliannau i'r Bil yng Nghyfnod 2, er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu'n well y rhwymedigaethau presennol o dan y Gorchymyn Diogelwch Tân".¹⁵¹

Trwyddedu

168. Mae Adran 14 yn nodi beth a olygir gan drwydded llety ymwelwyr ac yn datgan y gall mangre neu ran o fangre fod yn ddarostyngedig i ddwy drwydded neu ragor.

169. Mae Adran 15 yn nodi'r amodau y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn rhoi trwydded i Ddarparwr Llety Ymwelwyr (DLIY):

- Rhaid i'r DLIY fod wedi'i gofrestru o dan Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025mewn perthynas â'r fangre, a rhaid i'r gofrestr ddangos eu bod yn darparu'r llety yn y lleoliad hwnnw;
- Rhaid i'r DLIY fodloni unrhyw ofynion hyfforddi perthnasol sydd wedi'u rhagnodi mewn rheoliadau;
- Rhaid i'r llety fodloni'r holl safonau ffitrwydd penodol perthnasol, a rhaid bodloni'r safon gyffredinol pryd bynnag y mae gan ymwelydd hawlogaeth i aros yn y llety;
- Rhaid i'r DLIY gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod copïau o dystysgrif y drwydded a'r datganiad o wybodaeth (gweler adran 22) yn cael eu rhoi i'r ymwelydd cyn iddynt gyrraedd;
- Rhaid i'r DLIY sicrhau bod copi o dystysgrif y drwydded ar gael yn y fangre, naill ai ar bapur neu'n electronig, pryd bynnag y bydd gan ymwelydd hawlogaeth i aros yn y llety.

170. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y bydd "un awdurdod trwyddedu cenedlaethol".¹⁵²

171. Roedd nifer o dystion yn croesawu'n benodol y dull o fod ag awdurdod trwyddedu canolog, gan gynnwys FSB, CLILC ac STAA. Roedd STAA yn croesawu'r

¹⁵¹ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 27 Tachwedd 2025

¹⁵² Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru), Memorandwm Esboniadol, Pennod 8

dewis i fod â gweinyddwr cenedlaethol ar gyfer y cynllun trwyddedu gan y bydd yn osgoi'r aneffeithlonrwydd a achosir gan ddull tameidiog yn eu tyb hwy.¹⁵³

172. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol:

“Ar hyn o bryd, nid ydym wedi penderfynu a ddylai swyddogaethau'r awdurdod trwyddedu gael eu cyflawni'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r archwiliad o'r rolau cyflawni priodol, rydym yn gweithio gydag ACC i ddatblygu'r rhyngweithio â chofrestru llety ymwelwyr a'r gofrestr i'w chynnal ganddynt o dan Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru).”

173. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym:

“... although we don't name the WRA on the face of this Bill, my expectation is that the WRA will be the licensing authority as well. I don't want people to have to deal with two different organisations when they've got used to dealing with one, because, by the time this Bill is in operation, people will have already completed their registration with the WRA, they'll have some form of relationship with that organisation already, and I want this to be as easy and as seamless for the operator as I can.”¹⁵⁴

174. Dywedodd Prif Weithredwr Interim Awdurdod Cyllid Cymru:

“We have had discussions with the Welsh Government and with the Minister around us doing that registration and that front door. We have been asked to do some discovery work around mapping out a service design for the end to end of licensing, which will allow them to make some further decisions off the back of that.”¹⁵⁵

175. Eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet yn ddiweddarach fod y term “awdurdod trwyddedu” wedi'i ddefnyddio “er rhwyddineb ac i fod yn gryno”, ac y “bydd

¹⁵³ Tystiolaeth ysgrifenedig: [DTRVA 23 – Cymdeithas Llety Tymor Byr](#)

¹⁵⁴ [Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 162](#)

¹⁵⁵ [Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 196](#)

swyddogaethau craidd y cynllun yn aros gyda Gweinidogion Cymru". Aeth ymlaen i egluro:

"... gyda'r pwerau a roddir o dan adran 83 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, er enghraifft, gallwn ymrwymo i drefniadau asiantaeth gyda chyrff cyhoeddus eraill mewn perthynas ag arfer y swyddogaethau hynny. Can ddefnyddio pwerau fel y rhain byddwn yn edrych ar gyrff cyhoeddus eraill am rai elfennau o weithrediad y cynllun".¹⁵⁶

176. Nododd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai Llywodraeth Cymru yn edrych ar "Croeso Cymru, awdurdodau lleol a chyrff eraill" ar gyfer rhai elfennau o weithredu'r Bil, gan gynnwys canllawiau ar ffitrwydd i fod yn llety ymwelwyr, penderfynu pryd y mae cam gweithredu cydymffurfio a gorfodi yn angenrheidiol, a phenderfynu a ddylid cymeradwyo cais darparwr.¹⁵⁷

177. Fodd bynnag, nododd CLILC y byddai ganddynt wrthwynebiad cryf i'r cynnig bod Croeso Cymru'n gweithredu fel yr awdurdod gorfodi.¹⁵⁸

178. Nododd Ysgrifennydd y Cabinet na fyddai'n disgwyl i Awdurdod Cyllid Cymru ymdrin â'r lleiafrif o achosion lle mae angen ymweliad corfforol arnoch. Meddai:

"There, there are two choices, it seems to me. Local authorities I will probably put in the lead at the moment, but Visit Wales is also a possibility as well, because there's an organisation that is also used to being out on the ground, making physical visits to properties, dealing directly with people who provide accommodation."¹⁵⁹

Hyfforddiant ar gyfer darparwyr llety ymwelwyr

179. Mae Adran 16 yn darparu y gall Gweinidogion Cymru osod, drwy reoliadau, gofyniad ar DLIY sy'n darparu neu'n cynnig darparu llety ymwelwyr rheoleiddiedig i gwblhau hyfforddiant. Byddai'r hyfforddiant yn cwmpasu'r gofyniad i fangre fod yn ffit i fod yn llety ymwelwyr, yn cynnwys unrhyw god ymarfer a gyhoeddir o dan adran 3 ac unrhyw faterion eraill sy'n gysylltiedig â rheoleiddio llety ymwelwyr. Cyn

¹⁵⁶ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 18 Tachwedd 2025

¹⁵⁷ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 18 Tachwedd 2025

¹⁵⁸ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 13 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 36-38

¹⁵⁹ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 98

gwneud rheoliadau o dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau y maent yn ystyried eu bod yn briodol.

180. Roedd nifer o dystion yn ochelgar ynghylch yr angen am ofyniad i gwblhau hyfforddiant. Dywedodd STAA eu bod yn teimlo bod hyfforddiant gofynnol yn ddiangen yn y pen draw, a nodasant:

*"The majority of VAPs have been working in the sector for a long time and already comply fully with the licensing conditions as they are existing legal requirements."*¹⁶⁰

181. Awgrymodd Airbnb nad oes unrhyw dystiolaeth bod angen hyfforddiant gorfodol fel amod ar gyfer dal trwydded, a'u dadl hwy oedd y dylai cyfeirio DLIY at ganllawiau ynghylch eu rhwymedigaethau a ffynonellau gwybodaeth a hyrwyddo cod ymarfer eglur fod yn ddigon.¹⁶¹

182. Roedd Booking.com yn cytuno y byddai cod ymarfer yn ddigon, gan nodi fod llawer o weithredwyr eisoes yn bodloni amodau cyfreithiol a'u bod wedi bod yn gweithredu ers llawer o flynyddoedd ac felly bod hyfforddiant gorfodol yn ychwanegu cost heb budd cynyddol.¹⁶²

183. Awgrymodd MWT Cymru a Croeso Sir Benfro fod rhaid gwneud darpariaeth hefyd ar gyfer gweithredwyr mewn ardaloedd gwledig lle mae mynediad at y rhyngrwyd yn annibynadwy.¹⁶³

184. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

*"Training is not just a burden. Training is a good thing for the industry to make sure that people who operate within it are as well equipped as they need to be to discharge the obligations that they have. And this Bill itself has, or brigades together, obligations in a new way. And I think it is right that people in the industry are properly equipped to discharge those responsibilities."*¹⁶⁴

¹⁶⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig: [DTRVA 23 – Cymdeithas Llety Tymor Byr](#)

¹⁶¹ Tystiolaeth ysgrifenedig: [DTRVA 12 – Airbnb](#)

¹⁶² Tystiolaeth ysgrifenedig: [DTRVA 32 – Booking.com](#)

¹⁶³ Tystiolaeth ysgrifenedig: [DTRVA 26 – MWT Cymru \(Twristiaeth Canolbarth Cymru\)](#); tystiolaeth ysgrifenedig: [DTRVA 31 – Croeso Sir Benfro](#)

¹⁶⁴ [Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 54](#)

185. Ychwanegodd:

*"I don't want people who are highly experienced and already have a strong track record having to go through training that really adds no value to them. So, what we will do, in continued conversation with the industry, through regulation, is to make sure that you get the training that is worth you having and will add to your ability to do that job effectively."*¹⁶⁵

186. Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet fod Llywodraeth Cymru wedi gwrandao'n ofalus ar yr hyn y mae'r diwydiant wedi'i ddweud wrthynt, ac mai'r rheswm dros adael y manylion i'r gyfundrefn reoleiddio yw:

*"... to make sure that the training is aligned to the needs of the industry and, for that reason, I think regulations are a better way to have that rather more subtle set of obligations than just a blanket obligation there on the face of the Bill where everybody has to do the same level of training, whether you need it or not."*¹⁶⁶

Ceisiadau am drwydded: gweithdrefn

187. Mae Adran 18 yn darparu ar gyfer y broses y mae'n rhaid i DLIY ei dilyn wrth wneud cais am drwydded llety ymwelwyr. Fodd bynnag, bydd union fanylion y broses honno, yr wybodaeth y mae'n rhaid ei darparu a'r ffi y mae'n rhaid ei thalu, yn cael eu pennu gan Weinidogion Cymru yn y dyfodol. Mae adran 19 yn disgrifio'r gofynion y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru fod wedi'u hargyhoeddi eu bod wedi cael eu bodloni cyn rhoi trwydded, ac mae adran 20 yn nodi'r trefniadau ar gyfer penderfynu ar gais am drwydded.

188. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod amcangyfrif gorau Llywodraeth Cymru yn "tybio bod 30,000 o safleoedd yn parhau i gael eu trwyddedu drwy gydol pum mlynedd gyntaf y cynllun gan 15,000 o ddarparwyr".¹⁶⁷ Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio at uchelgais Llywodraeth Cymru i

¹⁶⁵ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 55

¹⁶⁶ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 55

¹⁶⁷ Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 8.37

“[d]efnyddio Deallusrwydd Artiffisial cyn belled ag y bo modd i wirio’r dogfennau a gyflwynwyd” fel rhan o’r cais am drwydded.¹⁶⁸

189. Dywedodd CLILC ei bod “o blaid datblygiadau o’r fath” ond ychwanegodd: “fe fyddai gennym ddiddordeb mewn sefydlu sut y gall technoleg asesu gyda lefel uchel o hyder fod ardystiad a gyflwynwyd a thystiolaeth ddogfennol arall o gydymffurfiaeth yn ddilys”.¹⁶⁹

190. Nododd Awdurdod Cyllid Cymru y byddent o bosibl yn edrych ar gannoedd o filoedd o ddogfennau a chadarnhaodd eu bod yn mynd i wneud prawf o gysyniad i ganfod sut y gellir defnyddio deallusrwydd artiffisial i helpu gyda’r broses weinyddol. Fe wnaethant hefyd nodi bod arnynt eisiau ystyried “what data sources are out there [...] It’s about whether we can look at, well, can we access those things beforehand, and, rather than asking somebody for their documents, we can ask them permission to go and look for it”.¹⁷⁰

191. Roedd Cymdeithas Hunanddarparwyr yr Alban yn amheus ynghylch y defnydd arfaethedig o ddeallusrwydd artiffisial, fodd bynnag, a hwythau’n dweud bod y dystiolaeth o’r Alban yn dangos bod hynny’n gwbl afrealistig.¹⁷¹

192. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod yn disgwyl y byddai’r mwyafrif sylweddol o drwyddedau’n cael eu dyroddi’n syml iawn drwy’r corff trwyddedu wedi i sefydliadau ddarparu tystiolaeth o’r pum prawf a nodir. Nododd y byddai hyn yn cael ei wneud mewn amrywiaeth eang o ffyrdd:

“You’ll be able to upload it, submit it, there’ll be a system that will scan it, identify that it’s all in the right order, and the licence will be issued.”¹⁷²

193. Pan ofynnwyd iddo am enghreifftiau o sut y gellid awtomeiddio’r system, cyfeiriodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru at y Gofrestrfa Tir, sydd wedi gwneud gwaith gyda phartneriaid cyflawni TG i edrych ar sganio gweithredoedd trosglwyddo unigol ar gyfer datblygiadau tai newydd. Esboniodd fod y system yn gweithio i drosi’r fersiynau PDF sydd wedi’u sganio i destun y gall peiriant ei

¹⁶⁸ Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 8.46

¹⁶⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA 22 – Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)

¹⁷⁰ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 240

¹⁷¹ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 280

¹⁷² Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 79

ddarllen ac yna y gall gymharu testun y weithred ar gyfer plot unigol yn erbyn y weithred flaenorol ar gyfer y datblygiad cyfan, a gall ddod o hyd i unrhyw newidiadau sylweddol a nodi'r rhai y mae angen edrych arnynt.¹⁷³

194. Fe wnaeth STAA gwestiynu'r llinell amser ar gyfer dyroddi trwyddedau. Fe wnaethant amlygu bod Rhentu Doeth Cymru'n dyroddi oddeutu 6,000 o drwyddedau y flwyddyn, a'i bod yn cymryd hyd at 8 wythnos i brosesu'r rhain.¹⁷⁴ Fe ddarparon nhw dystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol yn ddiweddarach i nodi'r gwahaniaethau allweddol rhwng nifer y ceisiadau a brosesir gan Rhentu Doeth Cymru a'r rhai y disgwylir iddynt gael eu prosesu dan gynllun trwyddedu.¹⁷⁵ Cododd PASC bryderon tebyg yn eu tystiolaeth ychwanegol hwythau, gan nodi nad oeddent yn meddwl bod y gymhariaeth gyda Rhentu Doeth Cymru yn iawn.

¹⁷⁶

195. Cododd tystion bryderon ynghylch proses "ymgeisio ac aros" ar gyfer ceisiadau. Dywedodd Awaze:

*"... this could leave owners unable to operate for significant amounts of time and impact prospective bookings while they wait for their licence."*¹⁷⁷

196. Adleisiwyd y safbwynt hwn gan STAA, Sykes Holiday Cottages, Airbnb, Travel Chapter a Booking.com.

197. Eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet fel a ganlyn:

"Mae pwerau yn y Bil sy'n caniatáu i drefniadau trosiannol gael eu rhoi ar waith i alluogi gweithredu mor llyfn â phosibl.

*Rydym yn bwriadu defnyddio'r pwerau hyn i ganiatáu i ddarparwyr presennol barhau i weithredu nes bod eu cais yn cael ei benderfynu, cyn belled â'u bod wedi gwneud cais am drwydded erbyn y dyddiad cau penodedig wrth i'r cynllun gael ei gyflwyno."*¹⁷⁸

¹⁷³ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 458

¹⁷⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA 23 – Cymdeithas Llety Tymor Byr (STAA)

¹⁷⁵ Tystiolaeth ychwanegol – Cymdeithas Llety Tymor Byr STAA

¹⁷⁶ Tystiolaeth ychwanegol – PASC UK 2

¹⁷⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA 14 – Awaze

¹⁷⁸ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 18 Tachwedd 2025

198. Ychwanegodd:

“Mewn perthynas â cheisiadau adnewyddu, mae’r pŵer ar wyneb y Bil yn adran 25(2), yn caniatáu yn benodol i ddarpariaeth gael ei wneud i alluogi trwydded i barhau i gael effaith nes bod cais adnewyddu wedi’i benderfynu. Y bwriad yw osgoi darparwr sydd wedi gwneud cais am adnewyddu rhag gweithredu dim ond oherwydd nad yw eu cais wedi’i benderfynu.”¹⁷⁹

199. Mae Adran 22 yn egluro’r hyn y mae’n rhaid ei gynnwys mewn tystysgrif trwydded a roddir i DLIY pan roddir trwydded. Rhaid iddi ddatgan:

- y fangre y mae’r drwydded yn ymwneud â hi,
- y math o lety ymwelwyr a all gael ei ddarparu yno, a hefyd
- yr amodau sy’n gymwys i’r drwydded.

200. Rhaid i Weinidogion Cymru hefyd ddarparu “datganiad o wybodaeth” i’r DLIY sy’n esbonio sut y mae’r system drwyddedu’n gweithredu a sut y gellir cyfleu cwynion i Weinidogion Cymru os yw ymwelydd yn pryderu bod un o amodau’r drwydded wedi cael ei dorri.

201. Awgrymodd tystion nad oedd digon o wybodaeth mewn perthynas â chwynion ac fe gwestiynon nhw a oedd yn berthnasol i gwynion ynghylch y broses drwyddedu ynteu i gwynion ynghylch darparu llety.¹⁸⁰ Dywedodd Booking.com:

“I’d argue that, for the provision of accommodation, there’s a complaints process that people will be able to go through with the accommodation provider. It should be, then, on the licence process, but, again, there’s not enough information for us really to be able to comment.”¹⁸¹

202. Nododd Bythynnod Gwyliau Gorllewin Cymru, er eu bod yn cefnogi proses gwynion briodol:

¹⁷⁹ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a’r Gymraeg, 18 Tachwedd 2025

¹⁸⁰ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Tachwedd 2025. Cofnod y Trafodion, paragraff 160

¹⁸¹ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Tachwedd 2025. Cofnod y Trafodion, paragraff 161

“... it needs clear guidance, so genuine safety issues are dealt with properly without allowing the system to be misused for general complaints or personal preferences.”¹⁸²

203. Dywedodd FSB Cymru ei bod hi’n bwysig bod pwynt cyswllt canolog i bobl gyfleu unrhyw gwynion a bod hynny’n glir i unrhyw un sy’n dymuno cwyno.”¹⁸³

204. Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai’n rhaid i ddarparwr llety ymwelwyr ddarparu gwybodaeth am y weithdrefn gwynion ar ddwy adeg: pan archebir y llety, a phan fydd y cwsmer yn cyrraedd y llety. Meddai:

“The complaint will be made to the Welsh Ministers, as the licensing authority, and then it will be for the licensing authority to decide whether the complaint is actually a complaint that is relevant to the licensing conditions [...] If it is, then in the way I’ve described, the first thing you would expect the licensing authority to do is to let the accommodation provider know that and give them a chance to put it right, and that’s what you would expect to happen. And you only reach the further reaches of a complaints procedure when people have had that opportunity and failed to take advantage of it to put right what should be put right.”¹⁸⁴

Trwyddedau: dod i ben ac adnewyddu

205. Mae Adran 25 yn nodi y bydd trwyddedau’n dod i ben ar ôl blwyddyn neu “unrhyw gyfnod arall, hwy, a bennir yn y drwydded”.

206. Mae’r Memorandwm Esboniadol yn nodi “Yn gyffredinol disgwylir i drwyddedau fod yn ddilys am flwyddyn.”¹⁸⁵

207. Mae’r adran hon hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth, mewn rheoliadau, ar gyfer y broses a fydd yn cael ei defnyddio i adnewyddu trwyddedau. Yn benodol, bydd hyn yn cynnwys, lle mae cais i adnewyddu trwydded wedi cael ei gyflwyno, trin y drwydded fel pe bai’n parhau

¹⁸² Tystiolaeth ysgrifenedig: [DTRVA 33 - Bythynnod Gwyliau Gorllewin Cymru](#)

¹⁸³ [Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 13 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 313](#)

¹⁸⁴ [Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 524-525](#)

¹⁸⁵ Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru), [Memorandwm Esboniadol, Paragraff 8.59](#)

nes bod Gweinidogion Cymru wedi gwneud penderfyniad ynghylch y cais i adnewyddu.

208. Mae'r pŵer i wneud rheoliadau o dan yr adran hon hefyd yn caniatáu i droseddau gael eu creu. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol y rheswm dros hyn yw "i sicrhau bod cydymffurfio gyda rheoliadau".¹⁸⁶

209. Awgrymodd tystion gan gynnwys WTA a STAA y gallai cyfnod trwydded o flwyddyn achosi ansicrwydd i ddarparwyr. Eglurodd UKHospitality Wales:

*"... there are consequences here for things like marketing and forward bookings. The industry is a much longer sort of life than annually, and people are booking quite often a year or more in advance for some of the premises, and the adverts that are being put into different areas have actually got quite a long lead-in time. And so it might be easier just as an organisational thing if it was three to five years rather than annually".*¹⁸⁷

210. Dywedodd Airbnb:

*"When annual renewals are a requirement of a licensing scheme, you often see the accommodation provider having a moment of uncertainty because they don't know if they can honour future bookings. And when jurisdictions have introduced an annual licence requirement, in most cases they subsequently extend it to three years."*¹⁸⁸

211. Awgrymodd Awaze ei bod yn afresymol disgwyl i berchnogion wario'r un costau gweinyddol a chostau cyfle bob blwyddyn i gael trwydded pan nad yw'n debygol y bydd eu hamgylchiadau wedi newid yn sylweddol.¹⁸⁹

212. Awgrymodd Ysgrifennydd y Cabinet y gallai trwydded pum mlynedd fod yn ataliad i rywun sy'n dod i mewn i'r sector, gan nodi y byddai trwydded blwyddyn

¹⁸⁶ Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru), Memorandwm Esboniadol, Pennod 5

¹⁸⁷ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 13 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 287

¹⁸⁸ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 101

¹⁸⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA 14 - Awaze

yn golygu y gallai ymgeiswyr newydd benderfynu a yw hwn yn fusnes y maent am barhau ynddo ai peidio.¹⁹⁰ Ychwanegodd:

“My aim is that renewal of the licence should be as straightforward as possible. I don’t want people to have to re-provide information that is already extant as part of getting your licence for a second year. [...] The application for your second year of a licence should be, I hope, as straightforward and as simple as it can be. I think that that mitigates some of the arguments that you’ve heard in favour of three- and five-year licences, because this is a system that should not have significant obligations on people; it should be as automatic as we can make it.”¹⁹¹

213. Wrth ymateb i’r cwestiwn pam fod y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy’n ymwneud ag adnewyddu trwyddedau, yn hytrach na nodi hyn ar wyneb y Bil, yn enwedig o ystyried y gallai’r rheoliadau greu troseddau, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

“... regulations are the way that allows you to do that more flexibly and to design a system that responds to the needs of the accommodation provider, rather than, as I say, having something that is there on the face of the Bill, but which is inevitably blunter and puts the burden more on their shoulders.”¹⁹²

Gorfodi

214. Mae’r Memorandwm Esboniadol yn nodi, “rydym yn disgwyl i’r awdurdod trwyddedu fabwysiadu dull gorfodi ‘cam wrth gam’ sydd wedi ei ddylunio i annog a chefnogi cydymffurfiaeth.”¹⁹³ Mae’r Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi y bwriedir ad-dalu i wasanaethau tai/iechyd yr amgylchedd awdurdodau lleol “ar sail adfer costau” am weithgareddau a gynhelir ganddynt “mewn perthynas â llety

¹⁹⁰ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 439

¹⁹¹ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 440

¹⁹² Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 66

¹⁹³ Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 7.25

ymwelwyr y mae amheuaeth neu gadarnhad nad ydynt yn cydymffurfio â gofynion trwyddedu”.¹⁹⁴

Pŵer i wneud gwybodaeth yn ofynnol

215. Mae adran 29 yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddysroddi hysbysiad gwybodaeth i rywun sy’n darparu neu’n cynnig darparu llety ymwelwyr ar hyn o bryd (neu rywun y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried y gall fod wedi gwneud hyn) neu berson sy’n cynorthwyo i ddarparu llety i ymwelwyr. Mae hysbysiad gwybodaeth yn ei gwneud yn ofynnol (yn hytrach na gofyn) i’r derbynnydd ddarparu’r wybodaeth a bennir o fewn amser penodedig os oes ganddynt fynediad ati. Mae methu â chydymffurfio â hysbysiad heb esgus rhesymol yn drosedd y gellir ei chosbi â dirwy o dan adran 33.

Mynd i mewn i fangre a’i harchwilio at ddibenion gorfodi

216. Mae Adran 30 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i alluogi person awdurdodedig i fynd i mewn i fangre sydd wedi’i thrwyddedu o dan Ran 3 o’r Bil at ddibenion archwilio - sy’n cynnwys edrych ar dystiolaeth ddogfennol, ei chopïo neu ei chymryd ymaith (gan gynnwys gwybodaeth sydd wedi’i storio ar gyfrifiadur neu ddyfais electronig arall). Dim ond lle mae gan Weinidogion Cymru sail resymol dros gredu bod DLIY wedi rhoi gwybodaeth anwir neu gamarweiniol iddynt (ac felly wedi cyflawni trosedd) neu wedi torri amod yn y drwydded y mae hyn yn berthnasol. Rhaid rhoi rhybudd rhesymol i’r trwyddedai am archwiliad ac ni cheir defnyddio grym i gael mynediad i’r fangre.

217. Mae adran 31 yn nodi y gall Gweinidogion Cymru wneud cais i ynad am warant i fynd i mewn i fangre lle nad yw cais blaenorol am fynediad o dan adran 30 wedi cael ei ateb neu os yw wedi cael ei wrthod, neu lle mae’n rhesymol disgwyl y bydd mynediad yn cael ei wrthod. Gellir rhoi gwarant hefyd mewn perthynas â mangre nad yw wedi’i thrwyddedu, ond y mae Gweinidogion Cymru yn amau ei bod yn cael ei defnyddio (neu wedi cael ei defnyddio) i gynnig neu ddarparu llety ymwelwyr rheoleiddiedig.

218. Roedd Beach View Cottages yn gwrthwynebu’n gryf bod archwilwyr yn cael y pŵer i fynd i mewn ar unrhyw adeg,¹⁹⁵ ac awgrymodd PASC fod y pwerau mynediad yn ormodol. Fodd bynnag, nododd STAA eu bod yn fodlon ar y cyfan ar y darpariaethau ar gyfer mynd i mewn ac archwilio, cyn belled ag y gellir rhoi

¹⁹⁴ Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru), Memorandwm Esboniadol, Paragraff 8.43

¹⁹⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA 09 – Beach View Cottages; tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA 16 – Cymdeithas Broffesiynol yr Hunanarlwywyr DU (Cymru)

sicrwydd mewn canllawiau ynghylch sut y bydd y pwerau hyn yn cael eu defnyddio.¹⁹⁶ Roedd BH&HPA yn cytuno bod angen i'r pwerau gael eu hategu â chanllawiau statudol ar lefel ronnynog.¹⁹⁷

219. Roedd CLILC yn croesawu'r ddarpariaeth ar gyfer cosbau penodedig ond pwysleisiodd y bydd rhoi adnoddau ar gyfer gweithgarwch gorfodi yn "hanfodol" i lwyddiant y cynllun, "gan y gallai gorfodi gwan arwain at drefniadau anffurfiol neu weithrediadau heb drwydded gan weithredwyr."¹⁹⁸

220. Pwysleisiodd Ysgrifennydd y Cabinet nad yw'r Bil wedi'i fwriadu i gynnwys gorfodi fel dewis cyntaf.¹⁹⁹

221. Eglurodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru:

*"... if the licensing authority were to work with local authorities to undertake enforcement action, we'd be probably more looking at officials from environmental health and/or housing teams that have the kind of experience of undertaking investigations of the kinds of issues that breaches of licence conditions would represent."*²⁰⁰

222. Mynegodd CLILC bryder ynghylch y baich posibl ar awdurdodau lleol:

"I'm not sure there's a complete understanding of what the burden, in terms of licensing and enforcement required on local authorities, will be, and in particular how the funding of that regime will work, given that you'd be asking different parts of a council to do investigations and/or enforcement."

223. Ychwanegodd CLILC yn ddiweddarach:

"If you do go down the WRA route, the challenge for that authority is how does it build that link effectively with the different departments of those councils and then work through

¹⁹⁶ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 13 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 478

¹⁹⁷ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 13 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 480

¹⁹⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA 22 – Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

¹⁹⁹ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 94

²⁰⁰ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 104

how does the resourcing of those different departments work as well.”²⁰¹

224. Tynnodd CLILC sylw hefyd at y “baich ariannol ac o ran adnoddau sy’n anfwriadol” wrth gyflwyno’r cynllun, gan awgrymu bod “prosiectau blaenorol wedi arwain at fwy o alw ar wasanaethau presennol o ganlyniad i’r cyhoeddusrwydd ychwanegol yn ymwneud â’r pwnc”.²⁰²

225. Awgrymodd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol y dylai unrhyw ddirwyon am ddiffyg cydymffurfio gael eu hailfuddsoddi mewn twristiaeth yng Nghymru.²⁰³

226. Roedd MWT Cymru yn awyddus bod tryloywder ynghylch beth ellir ei hawlio, faint, a pha weithgareddau sy’n gymwys fel gorfodi cyfreithlon, ac aethant ymlaen i argymhell y dylai fod yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi adroddiadau blynyddol sy’n dangos y camau gweithredu a gymerwyd a’r gwariant a hawliwyd.²⁰⁴

227. Mynegodd FSB Cymru bryder bod diffyg eglurder ynghylch pa gorff neu gyrff fydd â gorchwyl i sicrhau cydymffurfiaeth a nododd, heb eglurder ar sut y caiff hyn ei orfodi, fod risg y bydd y darparwyr da yn amsugno costau tra bydd darparwyr nad ydynt yn cydymffurfio yn osgoi’r un costau.²⁰⁵

228. Cyfeiriodd swyddogion Llywodraeth Cymru at y tebygrwydd â Rhentu Doeth Cymru ac meddai un swyddog eu bod wedi rhagweld y math hwnnw o drefniant yn sgil y ffaith y bydd rhaid i rywun canolog benderfynu a fydd angen ymchwilio i rywbeth.²⁰⁶ Cyfaddefodd swyddog arall fod llawer sy’n agored i drafodaeth ar gyfer gweithio gydag awdurdodau lleol yn lleol ac yn rhanbarthol.²⁰⁷

229. Wrth siarad am eu profiad hwy, nododd Rhentu Doeth Cymru fod ganddyn nhw femorandwm cyd-ddealltwriaeth gyda phob awdurdod lleol. Fe egluron nhw:

²⁰¹ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 13 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 34

²⁰² Tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA 22 – Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)

²⁰³ Tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA 02 – Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

²⁰⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA 26 – MWT Cymru (Twristiaeth Canolbarth Cymru)

²⁰⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, DTRVA 01 – FSB Cymru (Ffederasiwn Busnesau Bach)

²⁰⁶ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 110

²⁰⁷ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 104

“They also have all of the enforcement powers that Rent Smart Wales has, and they can choose whether they want to do the enforcement to ensure compliance or not”.²⁰⁸

230. Eglurodd Rhentu Doeth Cymru yn ddiweddarach fod y memorandwm cydddealltwriaeth yn amlinellu rolau a chyfrifoldebau pob parti mewn perthynas â hyrwyddo a chyflawni'r ddeddfwriaeth a chyfrifoldeb y naill a'r llall am weithgareddau gorfodi. Fe wnaethant gadarnhau, er mwyn hwyluso'r bartneriaeth, bod Cyngor Caerdydd wedi rhoi ei ganiatâd cyffredinol i bob Cyngor gyflawni gweithgareddau penodol o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

231. Fe ychwanegon nhw:

“Local authorities normally notify the central authority of non-compliance where they find it, unless they are taking a criminal case for offences under the Housing Act 2004, where it makes sense to roll all the offences into one prosecution file. This is because taking action for an offence under the Housing (Wales) Act 2014 is an additional workload involving different timeframes for actions being needed.”

232. Fe wnaethant nodi bod lefelau gweithgarwch gorfodi ar hyn o bryd yn dangos bod 367 o erlyniadau wedi cael eu cyflawni gan Rhentu Doeth Cymru a 21 gan awdurdodau lleol,²⁰⁹ gan ychwanegu bod nifer yr hysbysiadau cosb benodedig a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol dros y 10 mlynedd diwethaf yn llai na 5.²¹⁰

Troseddau

233. Mae'r Bil yn creu cyfanswm o bum trosedd. Mae adrannau 32, 33, 34, 35 a 47 yn creu'r troseddau canlynol, yn y drefn honno:

- darparu neu gynnig darparu llety ymwelwyr rheoleiddiedig mewn mangre heb drwydded a hynny heb esgus rhesymol;
- methu â chydymffurfio â hysbysiad gwybodaeth a ddyroddwyd o dan adran 29 heb esgus rhesymol;

²⁰⁸ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 13 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 124

²⁰⁹ Rhentu Doeth Cymru: Dangosfwrdd gorfodi

²¹⁰ Tystiolaeth ychwanegol – Rhentu Doeth Cymru

- rhoi gwybodaeth anwir neu gamarweiniol i Weinidogion Cymru yn fwriadol neu'n ddi-hid mewn cysylltiad â'u swyddogaethau o dan y ddeddfwriaeth hon (er enghraifft, fel rhan o gais am drwydded);
- rhwystro'n fwriadol berson awdurdodedig sy'n arfer swyddogaeth yn ddilys o dan y Rhan hon o'r Bil;
- marchnata neu hysbysebu mangre mewn ffordd sy'n methu â chydymffurfio â'r gofyniad yn adran 46(1) a hynny heb esgus rhesymol.

234. Mae person sy'n euog o drosedd o dan yr adrannau hyn yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy.

Ffioedd mewn perthynas â thrwyddedau llety ymwelwyr

235. Mae adran 38 yn darparu pŵer gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ar gyfer ac mewn perthynas â chodi ffioedd mewn cysylltiad â'r cynllun trwyddedu. Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau y maent yn ystyried eu bod yn briodol cyn gwneud rheoliadau.

236. Nodir fel a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol: "Dros amser, disgwylir y bydd ffioedd trwyddedu yn talu costau gweithredu'r cynllun yn llawn, a disgwylir y bydd costau camau gorfodi angenrheidiol yn cael eu talu o gosbau penodedig cysylltiedig, er efallai y bydd angen i Lywodraeth Cymru ychwanegu cyllid, yn enwedig ar y cychwyn. Bydd yn ofynnol i'r awdurdod trwyddedu bennu ei ffioedd yn unol â Rheoliadau Darparu Gwasanaethau 2009, a bydd yn gallu penderfynu ar strwythur priodol ffioedd yn ogystal â lefelau angenrheidiol y taliadau. Tan bydd y cynllun trwyddedu yn cyllido ei hun yn llawn, pennir ffioedd ar lefel sy'n adlewyrchu'r amcangyfrifon gorau o gostau'r cynllun."²¹¹

237. Yn seiliedig ar gyllideb amcangyfrifedig o £2.25m, mae'r Memorandwm Esboniadol yn awgrymu ffi drwyddedu flynyddol o £75 yn seiliedig ar amcangyfrif gorau bod 30,000 o unedau llety ymwelwyr hunanddarpar yn cael eu trwyddedu. Fe wnaeth y mwyafrif o'r tystion, gan gynnwys WTA, FSB Cymru ac STAA, gwestiynu'r ffi o £75 ac awgrymu ei bod yn danamcangyfrif.

²¹¹ Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru), Memorandwm Esboniadol, Paragraff 8.44

238. Mynegodd STAA bryder nad yw'r rhagdybiaethau ynglŷn â ffioedd i'w gweld yn gadarn o'u cymharu â chynllun trwyddedu'r Alban neu gynllun Rhentu Doeth Cymru gan Lywodraeth Cymru ei hun sy'n defnyddio cyffyrddiad ysgafnach.²¹²

239. Honnodd MWT Cymru y byddai'r £75 yr uned a awgrymir, heb haenu, yn effeithio'n anghymesur ar fangreodd mwy. Gwnaethant awgrymu bod ffioedd sydd wedi'u haenu neu eu capio yn hanfodol os am osgoi cosbi gweithredwyr mwy sy'n cydymffurfio."²¹³

240. Rhybuddiodd Cymdeithas Hunanddarparwyr yr Alban fod y ffigwr o £75 yn gwbl anghredadwy ar sail y dystiolaeth a oedd ganddynt o'r Alban ac fe wnaethant nodi mai £205 yw'r ffi leiaf yn yr Alban ac mai £5,698 yw'r fwyaf.²¹⁴

241. Awgrymodd Awdurdod Cyllid Cymru fod y ffi o £75 wedi'i seilio ar y dybiaeth y bydd llai o ryngweithio dynol am bod y dechnoleg deallusrwydd artiffisial yn hidlo'r achosion anodd allan.²¹⁵

242. Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet fod Llywodraeth Cymru wedi'i rhwymo gan reolau sy'n golygu na allwch chi fod â chynllun sy'n gwneud arian. Nododd:

*"... the maximum charge is already there in the sense that, when you add up the cost and you divide it by the number of people who have to pay the fee, that's what the fee will be."*²¹⁶

243. Ychwanegodd:

*"... at the moment, the Bill requires consultation before the final fee is fixed, but it doesn't require a vote on the floor of the Senedd on that. I've asked the team to consider whether we would bring forward a Stage 2 amendment so that, the first time the fee is set, there would have to be an affirmative vote on the floor of the Senedd."*²¹⁷

²¹² Tystiolaeth ysgrifenedig: [DTRVA 23 – Cymdeithas Llety Tymor Byr](#)

²¹³ Tystiolaeth ysgrifenedig: [DTRVA 26 – MWT Cymru \(Twristiaeth Canolbarth Cymru\)](#)

²¹⁴ [Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 279](#)

²¹⁵ [Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 245](#)

²¹⁶ [Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 436](#)

²¹⁷ [Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 437](#)

Pwerau i rannu gwybodaeth

244. Mae Adran 39 yn caniatáu rhannu gwybodaeth rhwng Gweinidogion Cymru a nifer o gyrff a restrir, yn ogystal â chyrrff eraill y gall Gweinidogion Cymru eu pennu yn y dyfodol drwy reoliadau. Mae'r gyrff a restrir yn yr adran hon yn cynnwys awdurdodau lleol Cymru, awdurdodau tân ac achub Cymru, Awdurdod Cyllid Cymru a Rhentu Doeth Cymru.

245. Cadarnhaodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru fel a ganlyn:

*"... it doesn't supersede existing data protection obligations. All the information will need to be processed lawfully, and as the scheme is operationalised, the licensing authority and the WRA and other regulators will need to make sure that their privacy notices and data-handling procedures are in line with the requirements of data protection legislation. They wouldn't be able to share the information unless they were doing so lawfully."*²¹⁸

246. Awgrymodd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru nad yw'n glir sut y bydd rhannu gwybodaeth yn gweithredu'n ymarferol. Nodasant fod sawl cwestiwn i'w hystyried, gan gynnwys a fydd angen rhannu'r wybodaeth yn rhagweithiol, a pha fecanweithiau fydd ar waith ar gyfer ceisiadau o'r fath. Awgrymasant hefyd ei bod yn aneglur sut y bydd yr awdurdod trwyddedu yn ymdrin ag achosion lle cyflwynir tystiolaeth gwrthgyferbyniol, a hwythau'n dweud, heb weithdrefnau clir, y gallai anghydfodau o'r fath ohirio penderfyniadau trwyddedu neu danseilio hyder yn y broses. Roedd eu casgliad hwy fel a ganlyn:

*"To function effectively, the information-sharing provisions must be supported by detailed guidance. This should define what constitutes acceptable 'evidence', clarify the weight given to different sources of information, and set out how disagreements between assessors and fire and rescue authorities will be resolved."*²¹⁹

247. Awgrymodd CLILC ei bod yn "ymddangos mai llwyfan TG cenedlaethol canolog wedi ei gysylltu â'r broses gofrestru yw'r ffordd ymlaen ar gyfer casglu a rhannu gwybodaeth gyda phartneriaid allweddol."

²¹⁸ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 83

²¹⁹ Llythyr oddi wrth Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru, 14 Tachwedd 2025

248. O ran sut y byddai rhannu gwybodaeth yn digwydd yn ymarferol, ychwanegodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru y byddai'n dibynnu ar sut y mae gweithdrefnau gweithredol yn cael eu datblygu yn ymarferol. Nododd mai integreiddio systemau digidol fyddai'r modd mwyaf effeithlon, mwy na thebyg, a bod yn rhaid wrth ryw elfen o ddatblygu systemau ar draws ystod eang o gyrff.²²⁰

249. Cadarnhaodd Awdurdod Cyllid Cymru yn ddiweddarach:

“as it becomes firmer as to what the service design looks like, exactly what information we will have, how we can involve third parties in that, how we share that data, who we might need to share that with—all that detail and the technicalities as to ‘how’ need to be worked through.”²²¹

Telerau contract

250. Mae Adran 41 yn nodi bod “contract llety ymwelwyr” yn cyfeirio at gontract sy'n rhoi hawlogaeth i ymwelydd aros mewn neu mewn llety ymwelwyr rheoleiddiedig am ddim mwy na 31 noson (pa un a ydynt yn olynol ai peidio) ac mae'n cynnwys eithriadau o'r diffiniad hwnnw megis contractau ar gyfer gwasanaethau neu gontract prentisiaeth.

251. Mae Adran 42 yn darparu mai un o'r telerau sy'n ymhlyg mewn contract llety ymwelwyr yw bod rhaid i'r llety fod yn “ffit i fod yn llety ymwelwyr” ar unrhyw adeg y mae gan ymwelydd hawlogaeth i aros yn y llety.

252. O ran effaith ymarferol adran 42, nododd WTA a Twristiaeth Gogledd Cymru eu bod yn fodlon ar y geiriad;²²² fodd bynnag awgrymodd Airbnb ei bod yn aneglur iawn o ran beth mae hynny'n ei olygu yn ymarferol.²²³ Roedd Booking.com yn cytuno, ac ychwanegodd:

²²⁰ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 85

²²¹ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 198

²²² Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 13 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 348 a 545

²²³ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 150

“... we need to be making sure that these provisions within the Bill are incredibly clear so that operators know what is required of them.”²²⁴

253. Dywedodd STAA nad oedd ganddyn nhw unrhyw bryderon ynghylch egwyddor adran 42, ond gan ychwanegu:

“However, if the scope of the fitness standards remain as wide and subjective as they are, we would need to revisit this wording.”²²⁵

254. Gofynnodd MWT Cymru am ychwanegu mesur diogelu “to prevent multi-claim liability and insurance conflict”. Fe awgrymon nhw’r canlynol:

“Section 42 currently allows multiple parallel contractual claims from a single party booking because any visitor can rely on the fitness term even if they are not a contracting party. This conflicts with how public liability 3 insurance and standard accommodation contracting operate, where the contract sits between the named booker and the provider.”²²⁶

255. Esboniodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru:

“The intention behind section 42 was, firstly, to incentivise good behaviour in the same way as the licensing regime does. And, secondly, to the extent that there would be any doubt as to the contractual remedy that an individual has, this just makes it clear insofar as the fitness for visitor accommodation is concerned, with the aim being that, because this is an explicit requirement in all cases, if there is a breach, then the visitor accommodation provider should understand that they wouldn’t realistically have a defence to it, and would be incentivised to make some sort of financial contribution or refund to the visitor.”²²⁷

²²⁴ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Tachwedd 2025. Cofnod y Trafodion, paragraff 152

²²⁵ Tystiolaeth ychwanegol – Cymdeithas Llety Tymor Byr (STAA)

²²⁶ Tystiolaeth ychwanegol – MWT Cymru (Twristiaeth Canolbarth Cymru)

²²⁷ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Tachwedd 2025. Cofnod y Trafodion, paragraff 535

Ein barn ni

Diffiniad o lety ymwelwyr

Nodwn resymeg Ysgrifennydd y Cabinet dros ffocws cychwynnol y Bil ar lety hunangynhwysol, hunanddarpar, a bod adran 5 yn darparu i Weinidogion Cymru ychwanegu “unrhyw ddisgrifiad arall o lety ymwelwyr” drwy reoliadau. Bydd yr hyblygrwydd hwn yn allweddol i ymateb i'r data a gynhyrchir gan y gofrestr ac addasu i'r dirwedd llety ymwelwyr. O ystyried y posibilrwydd y gallai cwnpas y Bil gael ei ehangu drwy ddefnyddio'r pŵer hwn, ac er mwyn sicrhau bod y Senedd yn cael amser i ystyried yr effeithiau posibl ar y sector, credwn y dylai rheoliadau o dan adran 5 fod yn ddarostyngedig i gyfnod craffu gofynnol.

Gall gosod ystafelloedd sbâr am gyfnod byr fod â rôl bwysig yn yr economi dwristiaeth a dylid ei ystyried fel rhan o unrhyw gynigion ar gyfer ehangu'r cynllun trwyddedu yn y dyfodol. Er ein bod yn cydnabod y gallai hyn fod yn gymhleth i'w gynnwys a'i weithredu, rydym yn nodi'r pryderon a godwyd y gall fod risg uwch ymhlith gweithgareddau rhentu ystafelloedd. Rydym yn wynebu anhawster o ran peidio â bod wedi cymryd tystiolaeth fanylach ar y mater hwn, ac yn yr amser a oedd ar gael nid ydym wedi gallu ystyried hyn ymhellach, ond mae'n amlwg bod y mwyafrif o'r tystion yn ystyried bod hyn yn rhan bwysig o greu chwarae teg.

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried diwygio'r Bil yng Nghyfnod 2 i sicrhau cyfnod o amser gofynnol priodol i'r Senedd ystyried rheoliadau a gynigir o dan adran 5.

Ffitrwydd i fod yn llety ymwelwyr

Ceir rhywfaint o anesmwythyd ymhlith tystion ynghylch y safon gyffredinol y darperir ar ei chyfer yn adran 7. Bydd angen canllawiau clir i sicrhau cysondeb wrth ddehongli a bod gweithredwyr yn deall eu rhwymedigaethau. Nodwn sylwadau gan dystion fod mecanweithiau eisoes ar waith i ymdrin â materion fel rheoli gwastraff ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, ond credwn y dylid mynd i'r afael â'r rhain yn y cod ymarfer a gyhoeddir o dan adran 3 hefyd, er mwyn atgyfnerthu negeseuon am y rhwymedigaethau hyn i weithredwyr. Dylai'r Memorandwm Esboniadol hefyd ddarparu esboniad o rwymedigaethau'r trwyddedai i waredu gwastraff ymwelwyr yn unol â rheolau awdurdod lleol, gan gynnwys defnyddio gwasanaethau gwastraff busnes ac nid gwastraff gweddillol.

Nodwn y safonau penodol a sylwadau Ysgrifennydd y Cabinet bod hyn yn cadw'r darpariaethau'n syml ar gyfer darparwyr llety ymwelwyr, a ddylai fod eisoes yn cydymffurfio ag o leiaf bedwar o'r pum safon a gynigir yn y Bil. Rydym yn fodlon bod hwn yn ddull rhesymol a chymesur. Fodd bynnag, rydym hefyd yn nodi bod y Bil yn cynnwys darpariaeth ar gyfer diwygio neu ychwanegu at y safonau hyn gan reoliadau yn y dyfodol. Er nad oedd amser gennym i ystyried effeithiau posibl cynnwys tystysgrifau perfformiad ynni fel safon ychwanegol, mae hwn yn faes a ddylai gael ei archwilio gan Lywodraeth Cymru wrth iddi ystyried newidiadau i bolisi yn y dyfodol.

Rydym hefyd yn nodi'r pryderon a godwyd gan y gwasanaethau tân ac achub y gallai'r safonau arwain at gynnydd yn yr angen am aseswyr risg tân. Os yw darparwyr eisoes yn cydymffurfio â'r safon hon, rydym yn ystyried y gallai unrhyw gynnydd o'r fath fod yn fach. Fodd bynnag, dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu â'r gwasanaethau tân ac achub drwy gydol y broses fel y gellir rheoli unrhyw gynnydd yn y galw mewn modd priodol.

Nodwn ymateb Llywodraeth Cymru i'r pwyntiau penodol a godwyd gan y gwasanaethau tân ac achub ac, ar ben hynny, y bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn adolygu'r gofynion yn adran 9, gyda golwg ar wneud gwelliannau posibl yng Nghyfnod 2 i sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r rhwymedigaethau presennol dan y Gorchymyn Diogelwch Tân yn well.

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod canllawiau a gyhoeddir o dan adran 55 yn mynd i'r afael â rhwymedigaethau darparwyr llety ymwelwyr mewn perthynas â'r safon cyffredinol o ran ffitrwydd yn adran 7.

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru fynd i'r afael â materion rheoli gwastraff ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ei chod ymarfer, er mwyn sicrhau bod gweithredwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac, ar ben hynny, dylai ddiwygio'r Memorandwm Esboniadol i nodi rhwymedigaethau presennol y trwyddedai mewn perthynas â gwaredu gwastraff ymwelwyr.

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cynnwys tystysgrifau perfformiad ynni fel safon ychwanegol wrth archwilio diweddariadau i'r cynllun trwyddedu yn y dyfodol.

Argymhelliad 13. Cyn y ddadl Cyfnod 1, dylai Ysgrifennydd y Cabinet gadarnhau a yw'n bwriadu cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 mewn perthynas â'r safon atal tân arfaethedig yn adran 9.

Trwyddedu: gweithdrefn a gofynion i gwblhau hyfforddiant

Roedd cefnogaeth amlwg i “un awdurdod trwyddedu” ar gyfer y cynllun, ac rydym yn nodi eglurhad Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch defnyddio gwahanol gyrrff cyhoeddus ar gyfer gwahanol elfennau o weithredu’r Bil. Fodd bynnag, rydym yn pryderu ynghylch parodrwydd Awdurdod Cyllid Cymru gan bod ei waith tuag at ddatblygu’r system drwyddedu i’w weld fel pe bai ar gam cynnar iawn. Gyda rhagor o amser, byddem wedi hoffi profi rhai o’r tybiaethau a wnaed gan Awdurdod Cyllid Cymru. Dylid monitro’r gwaith hwn yn ofalus, a byddem yn galw felly ar Awdurdod Cyllid Cymru i ddarparu diweddariadau rheolaidd i bwyllgor perthnasol yn y Senedd nesaf.

Rydym yn croesawu sylwadau Ysgrifennydd y Cabinet y dylai unrhyw hyfforddiant fod yn gymesur. Er mwyn galluogi pobl i gydymffurfio â darn newydd o ddeddfwriaeth, bydd hyfforddiant yn rhan bwysig o’r broses. Gallai canllaw ar-lein, fel a awgrymwyd gan rai tystion, fod yn llwybr rhwydd a hygyrch i ddarparwyr ateb eu gofynion i gwblhau hyfforddiant. Mae’n bwysig gweithio drwy’r manylion gydag ymgysylltiad gan y sector, er mwyn adnabod arfer gorau a sicrhau nad yw unrhyw ofyniad i gwblhau hyfforddiant yn mynd yn faich ar ddarparwyr, i’r graddau fel ei fod yn atal newydd-ddyfodiaid posibl i’r sector. Nodwn y bydd manylion y gofyniad yn cael eu nodi mewn rheoliadau a fydd yn destun ymgynghoriad.

O ran defnyddio deallusrwydd artiffisial i gynorthwyo gyda cheisiadau am drwyddedau, nodwn fod Awdurdod Cyllid Cymru’n gwneud rhywfaint o waith yn ymchwilio i’r hyn a allai fod yn bosibl. Er bod rhai tystion yn amheus o ddibynnu ar ddeallusrwydd artiffisial yn y broses drwyddedu, mae hwn yn amlwg yn faes lle gellid defnyddio technoleg os cymerir yr amser i’w datblygu’n iawn. Nodwn yr enghraifft a roddwyd o ran y Gofrestrfa Tir a byddem hefyd yn awgrymu y gallai system fel yr un a ddefnyddir gan yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau fod yn gymaradwy, o ystyried y broses o gysylltu dogfennau’n electronig sy’n angenrheidiol ar ei chyfer. Fodd bynnag, bydd hwn yn ddarn sylweddol o waith a bydd angen iddo barhau ar gyflymder er mwyn i’r system fod yn gwbl weithredol mewn pryd ar gyfer gweithredu’r Bil.

Rydym yn nodi’r sylwadau a wnaed gan y Gymdeithas Llety Tymor Byr mewn perthynas â faint o amser y bydd yn ei gymryd i drwydded gael ei phrosesu, yn enwedig eu pryder ynghylch y gymhariaeth a wnaed gyda thrwyddedau a ddyroddir gan Rhentu Doeth Cymru. Mae angen i’r data yma gael ei egluro ymhellach gan Ysgrifennydd y Cabinet, gan gynnwys unrhyw amcangyfrif a wnaed o’r amser y bydd yn ei gymryd i brosesu a dyroddi’r 30,000 o

drwyddedau llety ymwelwyr, yn ôl yr amcangyfrif, y bydd angen eu dyroddi ym mlwyddyn gyntaf gweithredu'r cynllun trwyddedu.

Rydym wedi ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd i ni ar hyd tymor trwydded ac rydym yn nodi pryderon gan ddarparwyr ynghylch anfanteision trwydded blwyddyn. Awgrymwyd nad yw'r safbwynt diofyn o ran bod â thrwydded blwyddyn yn adlewyrchu'r ffordd y mae'r sector yn gweithredu, gyda nifer o weithredwyr yn nodi eu bod yn rheolaidd yn cael archebion hyd at ddwy flynedd ymlaen llaw.

Nodwn bryderon tystion nad oes digon o eglurder yn y Bil ynghylch y broses gwynion, a bod angen rhagor o wybodaeth. Rydym yn cytuno nad yw'r rhan hon o'r Bil yn cynnwys manylion digonol, ac felly byddem yn gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet roi esboniad llawn o'r bwriad ar gyfer y broses gwynion fel y darperir ar ei chyfer yn adran 22.

Argymhelliad 14. Dylai Awdurdod Cyllid Cymru ymrwymo i ddarparu diweddariadau rheolaidd ar ei waith mewn perthynas â'r gofrestr a'r cynllun trwyddedu i bwyllgor perthnasol yn y Senedd nesaf.

Argymhelliad 15. Cyn y ddadl Cyfnod 1, dylai Ysgrifennydd y Cabinet adolygu'r dystiolaeth ychwanegol a ddarparwyd gan y Gymdeithas Llety Tymor Byr a chadarnhau nifer cyfartalog y trwyddedau ar y cyfan y mae Rhentu Doeth Cymru'n ymdrin â hwy bob blwyddyn a'r amser a gymer i brosesu ceisiadau ar hyn o bryd. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet nodi hefyd unrhyw amcangyfrif a wnaed ganddo o'r amser y bydd yn ei gymryd i brosesu a dyroddi'r 30,000 o drwyddedau llety ymwelwyr, yn ôl yr amcangyfrif, y bydd angen eu dyroddi ym mlwyddyn gyntaf gweithredu'r cynllun trwyddedu.

Argymhelliad 16. Dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio'r Bil yng Nghyfnod 2 i estyn y cyfnod gofynnol y gellir rhoi trwydded llety ymwelwyr ar ei gyfer.

Argymhelliad 17. Cyn y ddadl Cyfnod 1, dylai Ysgrifennydd y Cabinet ddarparu rhagor o wybodaeth i'r Senedd ynghylch sut y disgwylir i'r ddarpariaeth ar gyfer cwynion yn adran 22 weithio'n ymarferol, gan gynnwys sut y bydd cwynion yn cael eu hasesu a beth fydd yr effaith ymarferol pe bai cwyn yn cael ei chadarnhau.

Gorfodi

Mae'n amlwg bod angen gweithio trwy lawer o fanylion o hyd cyn gweithredu'r Bil. Rydym yn siomedig nad oes safbwynt cliriach eto ynghylch pa gyfrifoldebau gorfodi fydd yn dod i ran pa gyrff, ac roeddem yn synnu nad yw'n ymddangos

bod unrhyw ymgysylltiad adeiladol wedi bod ag awdurdodau lleol ar yr agwedd hon ar y Bil eto.

Rydym yn cytuno â sylwadau gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru mai awdurdodau lleol fydd yn y sefyllfa orau i weithredu yn y maes hwn, ond rydym hefyd yn cydnabod y gallai cysylltu rhwng y cyrff dan sylw fod yn heriol. Clywsom y byddai CLILC yn gwrthwynebu'n gryf y syniad bod Croeso Cymru yn ysgwyddo rôl orfodi o bosibl. O ystyried bod hyn yn gwbl groes i awgrym Ysgrifennydd y Cabinet, mae'n amlwg bod cryn dipyn o waith i Ysgrifennydd y Cabinet ei wneud o ran cytuno â phartneriaid sut y bydd y darpariaethau allweddol hyn yn cael eu gweithredu'n ymarferol.

Mae'r enghraifft hon yn symbol o'r problemau sy'n gysylltiedig â dewis ddull Llywodraeth Cymru o gyflwyno'r Bil i'r Senedd pan fo cymaint o fanylion o ran sut y byddai'r Bil yn gweithredu'n ymarferol heb eu cytuno eto. Bydd unrhyw weithgarwch gorfodi yn cael effaith nid dim ond ar adnoddau ond hefyd ar gapasiti. Er ein bod yn nodi nad yw darpariaethau'r Bil wedi'u bwriadu i ddod i rym tan 2029, mae'n hanfodol bod y manylion hyn yn cael eu hystyried yn drylwyr ymlaen llaw, trwy ymgysylltu â phawb sy'n gysylltiedig. Dylai'r trafodaethau hyn ddechrau ar y cyfle cynharaf, er mwyn sicrhau y cynllunnir rhag blaen ar gyfer unrhyw newidiadau.

Clywsom rai pryderon gan dystion ynghylch y darpariaethau ar gyfer mynd i mewn ac archwilio. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod bwriad Llywodraeth Cymru i fabwysiadu dull gorfodi "cam wrth gam".

Argymhelliad 18. Cyn y ddadl Cyfnod 1, dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am drafodaethau gydag awdurdodau lleol ynghylch eu rôl bosibl yn y broses orfodi, ac egluro'r rôl bosibl y gallai Croeso Cymru ei chwarae.

Ffioedd

Nid oedd y mwyafrif o'r tystion wedi'u hargyhoeddi ynghylch y dybiaeth mai £75 fydd y ffi, ac mae'n amlwg bod hwn yn faes allweddol sy'n achosi pryder i weithredwyr. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod y ddyletswydd ar Lywodraeth Cymru i sefydlu ffi sydd at ddibenion adennill costau yn unig, ac mai dim ond yn ddiweddarach y bydd hon yn cael ei phennu pan fydd data pellach ar gael ynghylch nifer y darparwyr llety ymwelwyr y bydd y drwydded yn gymwys iddynt, a'r systemau a sefydlwyd i brosesu eu ceisiadau.

Bydd yr ansicrwydd hwn yn destun pryder i lawer o weithredwyr, o bosibl er anfantais i'r diwydiant, ac felly rydym yn croesawu sylwadau Ysgrifennydd y

Cabinet ynghylch craffu ar y rheoliadau a fydd yn gosod y ffi. Rydym yn cytuno y dylai fod craffu manylach ar y rheoliadau hynny.

Argymhelliad 19. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant i'r Bil yng Nghyfnod 2 i ddarparu y bydd y rheoliadau a wneir o dan adran 38 yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd.

Telerau contract

Nodwn y ddarpariaeth yn adran 42, ac nad oedd tystion i'w gweld fel pe bai ei diben yn glir iddynt. Er ein bod hefyd yn nodi esboniad Llywodraeth Cymru o'r bwriad y tu ôl iddi, mae angen rhagor o fanylion i sicrhau bod gweithredwyr yn deall y ddarpariaeth hon yn llawn.

Argymhelliad 20. Cyn y ddadl Cyfnod 1, dylai Llywodraeth Cymru nodi'n fanylach sut y bwriedir i'r ddarpariaeth yn adran 42 weithio'n ymarferol, gan gynnwys ei chyfiawnhad dros gynnwys 42(4).

6. Darparu gwybodaeth i'r cyhoedd am lety ymwelwyr

Cyfeiriadur o lety ymwelwyr

256. Mae Adran 45 yn gosod dyletswydd ar Awdurdod Cyllid Cymru a Gweinidogion Cymru i gynhyrchu cyfeiriadur electronig ar y cyd o fangreuedd lle darperir llety ymwelwyr yng Nghymru sydd ar gael i'r cyhoedd. Yn ôl y Nodiadau Esboniadol:

"... bydd y cyfeiriadur cyfunol yn caniatáu i aelodau o'r cyhoedd, yn ogystal â sefydliadau a chyrff sydd â diddordeb yn y sector, ddod o hyd i wybodaeth megis a yw mangre benodol wedi ei chofrestru a/neu wedi ei thrwyddedu, enw'r busnes neu'r unigolyn sy'n darparu'r llety, ac a oes unrhyw amodau trwyddedu arbennig yn eu lle, pe bai'r rhain yn cael eu cyflwyno yn y dyfodol".²²⁸

257. Tynnodd BH&HPA sylw at y ffaith, o ystyried y bydd y system drwyddedu yn gweithredu drwy'r un plattform ar-lein â'r cynllun cofrestru ac ardoll, ei bod yn hanfodol bod y fframwaith digidol yn gwahaniaethu'n glir rhwng llety rheoleiddiedig a llety esempt er mwyn osgoi pero i barciau trwyddedig gofrestru neu wneud cais yn ddiangen. Maent hefyd yn awgrymu y bydd canllawiau clir a hygyrch gan Lywodraeth Cymru yn hanfodol i sicrhau bod esemptiadau'n cael eu cymhwyso'n gyson ledled Cymru.²²⁹

258. Roedd FSB yn gefnogol i'r bwriad bod y ceisiadau trwyddedu'n cael eu gwneud drwy'r un plattform ag ar gyfer cofrestru ond fe wnaethant nodi y byddent yn croesawu rhagor o fanylion am gynlluniau ar gyfer plattform digidol a'i ddyluniad.²³⁰

259. Yn ôl Awdurdod Cyllid Cymru mae'r gwaith i ddatblygu'r gofrestr genedlaethol (fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025) yn mynd rhagddo'n dda. Mae Awdurdod Cyllid Cymru yn bwriadu

²²⁸ Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru), Memorandwm Esboniadol, Nodiadau Esboniadol

²²⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA 21 - Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain

²³⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA 01 - FSB Cymru (Ffederasiwn Busnesau Bach)

caniatáu i ddarparwyr llety ymwelwyr gofrestru o hydref 2026, yn dilyn beta preifat ym mis Mehefin 2026.²³¹

260. O ran datblygu'r platfform trwyddedu ar-lein, cadarnhaodd Prif Weithredwr Interim Awdurdod Cyllid Cymru:

*"The register will be up and running from next year, and then we'll just have to do some tweaks and put on the elements for licensing. So, the register will be there a good few years before licensing comes on board, and then, as I say, we'll do whatever tweaks we need to do to fit in the extra licensing elements of that register. We're confident that we've got enough time for that."*²³²

Hysbysebu a marchnata

261. Mae adran 46 yn ei gwneud yn ofynnol i bob darparwr llety ymwelwyr, ni waeth beth fo'r math o lety, neu unrhyw un sy'n ei hysbysebu ar eu rhan, gynnwys rhif cofrestru mangre dilys ym mhob hysbyseb a deunydd marchnata. Rhaid iddynt hefyd gynnwys cyfarwyddiadau ar sut i gael mynediad at wybodaeth am y fangre yn y cyfeiriadur llety ymwelwyr.

262. Mae adran 47 yn ei gwneud yn drosedd methu â chydymffurfio ag adran 46 heb esgus rhesymol. Mae person sy'n euog o drosedd o dan adran 47 yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy.

263. Nododd MWT Cymru eu cefnogaeth i'r gofyniad i bob busnes arddangos ei rif ond dadleuon nhw fod rhaid i'r ddyletswydd gyfreithiol fod ar y darparwr llety, nid ar wefannau trydydd parti na Sefydliadau Rheoli Cyrchfan. Cyfeiriasant at brofiadau mewn gwledydd eraill, gan nodi:

"Major global booking channels (e.g., Airbnb, Booking.com) have shown in Spain and other countries that they are not afraid to remove listings they cannot verify. In Spain, over 53,000 listings were removed in 2025 for lacking verifiable registration numbers."

²³¹ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 182

²³² Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 234

If similar requirements were introduced in Wales without a robust verification system, this could severely impact Welsh tourism visibility.”²³³

264. Ychwanegodd MWT Cymru yn ddiweddarach “The technicalities and system architecture that you’ll have to get to be able to update matching a licence to a database or a DMO site or an online travel agent site, whatever we’re talking about, is incredibly complex and expensive.”²³⁴

265. Dywedodd Airbnb fod ganddyn nhw bryderon difrifol iawn ynghylch sut mae Llywodraeth Cymru yn dychmygu rôl platfformau archebu a chyfryngwyr lle mae gorfodi yn y cwestiwn. Fe egluron nhw:

“Under sections 46 and 47, the bill would make platforms (and their senior officers) liable for a VAP’s failure to display an accurate registration number, to link to the visitor accommodation directory, and any other display requirements on their accommodation listing “in a form specified by Welsh ministers”. These proposals were communicated to us at an extremely late stage (one week before introduction of the bill to the Senedd), with no prior consultation or discussion.

Platforms do not have the ability to determine whether a registration number inputted by an VAP is correct. While we note comments from the WRA that the register will be public and platforms could check whether the number on a listing matches the details on the registration scheme, they do not appear to be familiar with the significant technical and resource difficulties involved in implementing this, which could have been highlighted had they requested input from us before publication of the bill.”²³⁵

266. Roedd STAA yn cytuno mai cyfrifoldeb y darparwr llety ymwelwyr ddylai fod i roi rhif cywir i mewn ac fe nodon nhw ei fod yn ofyniad anarferol o’i gymharu â marchnadoedd eraill.²³⁶

²³³ Tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA 26 – MWT Cymru (Twristiaeth Canolbarth Cymru)

²³⁴ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 264

²³⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig: DTRVA 12 – Airbnb

²³⁶ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 13 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 489

267. Awgrymodd Travel Chapter:

*"Platforms, agents and property managers need a scalable way to verify registration numbers; manual checks per listing are infeasible to be able to comply with section 47 of the Bill."*²³⁷

268. Dywedodd Awdurdod Cyllid Cymru:

*"We've had some good discussions with the online travel agents and they're keen to help, and they've done this throughout the world, so it's not—. What we're suggesting isn't anything new and they're quite comfortable, I think, with having a registration number. ... we can put things in place where they can check that that's correct, they can validate it."*²³⁸

269. Fodd bynnag, roedd STAA yn anghytuno â'r safbwynt hwn, ac fe wnaethant hwy nodi eu bod wedi siarad gydag Awdurdod Cyllid Cymru ers hynny i drafod sut y gallai weithio.²³⁹ Dywedodd Airbnb nad oeddent yn adnabod y sylwadau a wnaed gan Awdurdod Cyllid Cymru fel adlewyrchiad cywir o'u sgysiau gyda ni na'r farn a fynegwyd ganddynt fod atebion i hyn yn gymharol hawdd.²⁴⁰ Fe rannon nhw dystiolaeth bellach yn ddiweddarach a honno'n nodi rhagor o fanylion ynglŷn â'u pryderon, gan gynnwys yr heriau technegol sy'n gysylltiedig â'r dull a awgrymir.²⁴¹

270. Fe amlygodd Booking.com eu prosesau presennol i gael gwared ar restrïadau anghyfreithlon neu nad ydynt yn cydymffurfio, ac fe ychwanegasant:

*"We take compliance seriously and are in discussions with the Welsh Revenue Authority on steps to minimise errors in registration-number entry with a meeting having taken place on Tuesday 25 November following our evidence session and further discussions planned."*²⁴²

271. Roedd Ysgrifennydd y Cabinet yn glir bod cyfrifoldeb ar ddarparwyr platfformau ar-lein i sicrhau bod yr wybodaeth y maen nhw'n ei darparu i

²³⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig: [DTRVA 18 – Travel Chapter](#)

²³⁸ [Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 225](#)

²³⁹ [Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 13 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 496](#)

²⁴⁰ [Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 30](#)

²⁴¹ [Tystiolaeth ychwanegol - Airbnb](#)

²⁴² [Tystiolaeth ychwanegol - Booking.com](#)

ymwelwyr posibl yn gywir, ond nododd na ddylai neb gredu eu bod nhw mewn perygl o gael eu herlyn yn droseddol am wneud camgymeriad.²⁴³ Ychwanegodd yn ddiweddarach:

*"We are very happy to go on having conversations with them to make sure that they can meet their obligations in a way that fits in with their model in the best way possible. But what they won't be able to do is escape their obligations."*²⁴⁴

272. Tynnodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru sylw at y ffaith bod y drosedd fel y darperir ar ei chyfer yn adran 47 yn amodol ar amddiffyniad esgus rhesymol, gan nodi na fyddant wedi cyflawni trosedd os yw'r hyn maen nhw wedi'i wneud yn rhesymol i'r graddau y bo'n sicrhau bod yr wybodaeth gywir ar gael. Ond ychwanegodd:

*"There will be some obligation on them to make sure that they've got the right information within that test of reasonableness".*²⁴⁵

273. Wrth ymateb i'r cwestiwn a oedd risg y gallai gwefannau archebu dynnu'n ôl o farchnad Cymru oherwydd nad yw'n atebolrwydd y maent yn agored iddo mewn marchnadoedd eraill sydd â chynllun trwyddedu, meddai Ysgrifennydd y Cabinet:

*"I would take it with a very significant pinch of salt. I do not believe that just needing to be accurate in the information you offer to the public is a reason why someone would take their business away from Wales and lose all of the profits they make in the process."*²⁴⁶

²⁴³ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Tachwedd 2025. Cofnod y Trafodion, paragraff 489

²⁴⁴ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Tachwedd 2025. Cofnod y Trafodion, paragraff 491

²⁴⁵ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Tachwedd 2025. Cofnod y Trafodion, paragraffau 493 a 495

²⁴⁶ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Tachwedd 2025. Cofnod y Trafodion, paragraff 517

Ein barn ni

Cyfeiriadur o lety ymwelwyr

Nodwn y gefnogaeth gan dystion i sefydlu cyfeiriadur, ac rydym yn fodlon ar y darpariaethau yn hyn o beth. Ar ben hynny, nodwn y sylwadau gan Awdurdod Cyllid Cymru o ran sefydlu'r cyfeiriadur, a sut y gellir addasu'r system ar gyfer y gofrestr i weddu i'r angen.

Hysbysebu a marchnata

Clywsom bryderon platfformau fel Airbnb a Booking.com mewn perthynas â'r drosedd arfaethedig yn adran 47, a bod y dull yma'n wahanol i'r dull mewn marchnadoedd eraill. Mae'n bwysig nad yw Cymru'n cael ei rhoi dan anfantais o ganlyniad i'r darpariaethau hyn. Rydym hefyd yn nodi galwadau gan dystion mai darparwyr llety ymwelwyr ddylai fod yn gyfrifol am yr wybodaeth a ddarperir; rydym yn nodi bod Ysgrifennydd y Cabinet, yn ôl pob golwg, wedi diystyru'r rhain. Mae angen eglurhad pellach ar fater "amddiffyniad rhesymol". Mae angen trafodaethau pellach rhwng Llywodraeth Cymru a'r platfformau, er mwyn sicrhau bod y darpariaethau yn y Bil yn ymarferol ac, os oes angen, yn cael eu diwygio.

Argymhelliad 21. Cyn y ddadl Cyfnod 1, dylai Ysgrifennydd y Cabinet:

- ddarparu diweddariad am drafodaethau gyda phlatfformau/asiantau archebu ynghylch y darpariaethau yn adrannau 46 a 47,
- darparu rhagor o wybodaeth am y rhesymeg dros estyn y drosedd arfaethedig i gyrff heblaw darparwyr llety ymwelwyr, a
- darparu rhagor o wybodaeth am y camau penodol y gallai fod angen eu cymryd i gadarnhau amddiffyniad i'r trosedd arfaethedig.

Argymhelliad 22. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyflwyno gwelliant i'r Bil yng Nghyfnod 2 i gyfyngu cwmpas y drosedd hysbysebu a marchnata yn adran 47 i ddarparwyr llety ymwelwyr yn unig.

7. Materion pellach

274. Yn dilyn y sesiynau craffu terfynol ar y Bil, cyflwynwyd tystiolaeth bellach gan nifer o dystion. Er bod rhai o'r pwyntiau a godwyd yn y dystiolaeth ychwanegol yn ymwneud â materion sydd eisoes wedi cael sylw drwy'r adroddiad, fe nodwyd nifer o faterion eraill, y caiff rhai ohonynt eu hamlygu isod.

275. Galwodd MWT Cymru ar Lywodraeth Cymru i ddiffinio amser atgyweirio rhesymol a dyletswyddau ffitrwydd parhaus yn Adrannau 15 a 44. Fe wnaethant nodi:

*"Without definition, this creates legal uncertainty and will invite disputes even where businesses act responsibly, particularly in rural areas or where contractors are not immediately available. We ask that a clear definition or test for reasonable time is added through regulations or statutory guidance, taking account of seriousness of the defect, interim mitigation, contractor availability, rural and seasonal constraints, and time remaining in the stay. A safe harbour should protect those who act promptly and proportionately."*²⁴⁷

276. Gofynnodd Booking.com am eglurder pa un ai iechyd a diogelwch yn unig yw diben y Bil, ynteu a yw'n cynnwys tai. O ran tai, fe wnaethant nodi pwyntiau ychwanegol, a dadlau bod prinderau tai'n bodoli o ganlyniad i nifer o ffactorau, nid dim ond o ganlyniad i lety gosod tymor byr.²⁴⁸ Fe adleisiodd PASC bryder ynghylch bwriad y Bil, ac fe awgrymon nhw fod safbwynt Ysgrifennydd y Cabinet wedi newid rhwng sesiynau tystiolaeth. Meddent hwy:

*"Had we all known the dual intent, we would have presented our evidence very differently."*²⁴⁹

277. Ar wahân i hynny, fe gododd PASC bryderon ynghylch y darpariaethau yn adrannau 8-12 a'u cysondeb â rheolau presennol.²⁵⁰ Nodwyd hyn gan STAA hefyd, a ddywedodd:

²⁴⁷ Tystiolaeth ychwanegol – MWT Cymru (Twristiaeth Canolbarth Cymru).

²⁴⁸ Tystiolaeth ychwanegol – Booking.com

²⁴⁹ Tystiolaeth ychwanegol – PASC UK (2)

²⁵⁰ Tystiolaeth ychwanegol – PASC UK (2)

“We are concerned that the provisions of some of the specific standards are not consistent with current regulations and Welsh Government guidance.”²⁵¹

Ein barn ni

Mae’n un o symptomau pellach y llinell amser fyrrach ar gyfer Cyfnod 1 nad ydym wedi gallu craffu ar y pwyntiau ychwanegol a godwyd gan dystion ar ôl cwblhau ein gweithgarwch casglu tystiolaeth. Fodd bynnag, rydym ni’n credu y byddai’n werth i Lywodraeth Cymru ystyried y pryderon hyn.

Argymhelliad 23. Cyn y ddadl Cyfnod 1, dylai Ysgrifennydd y Cabinet ymateb i’r dystiolaeth ychwanegol benodol a gafodd y Pwyllgor.

²⁵¹ Tystiolaeth ychwanegol – Cymdeithas Llety Tymor Byr (STAA)

Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar dudalen we'r Pwyllgor.

Dyddiad	Enw a Sefydliad
5 Tachwedd 2025	Mark Drakeford AS, Aelod Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, Llywodraeth Cymru Helen John, Dirprwy Gyfarwyddwr, Trwyddedu Llety Ymwelwyr, Llywodraeth Cymru Robbie Thomas, Pennaeth Trwyddedu Llety Ymwelwyr, Llywodraeth Cymru Dylan Hughes, Cwnsler Deddfwriaethol, Llywodraeth Cymru Hannah Starkey, Cyfreithiwr, Llywodraeth Cymru Rebecca Godfrey, Prif Weithredwr Interim, Welsh Revenue Authority Anthony Pritchard, Chief Digital Officer, Awdurdod Cyllid Cymru Joseph Doohar, Pennaeth Ardoll Ymwelwyr a Chyflawni Cofrestru Cenedlaethol, Awdurdod Cyllid Cymru Marc Crothall MBE, Prif Weithredwr, Cynghrair Twristiaeth yr Alban Fiona Campbell MBE, Prif Weithredwr, Cymdeithas Hunanddarparwyr yr Alban
13 Tachwedd 2025	Y Cynghorydd Huw Thomas, Arweinydd Cyngor Caerdydd, a Llefarydd dros yr Economi ac Ynni, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) Heidi Neil, Arweinydd Trwyddedu Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) Bethan Jones, Rheolwr Gweithredol, Rhentu Doeth Cymru a Chadeirydd Panel Arbenigwyr Tai lechyd yr

Dyddiad	Enw a Sefydliad
	Amgylchedd Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) David Chapman, Cyfarwyddwr Gweithredol, UKHospitality Cymru Rowland Rees-Evans, Cadeirydd, Cynghrair Twristiaeth Cymru Dr Llŷr ap Gareth, Pennaeth Polisi, FSB Cymru (Ffederasiwn Busnesau Bach) Glenn Evans, Cadeirydd, Twristiaeth Gogledd Cymru Charlie Reith, Cyd-Gadeirydd y Gweithgor Polisi, Cymdeithas Llety Tymor Byr Katherine Squires, Cyfarwyddwr Polisi a Materion Cyhoeddus, Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain
20 Tachwedd 2025	Barbara Griffiths, Bythynnod Gwyliau Gogledd Cymru Carl Thomson, Rheolwr Polisi Cyhoeddus (DU), Airbnb Fiona MacConnacher, Pennaeth Materion Cyhoeddus yn y DU ac Iwerddon, Booking.com Emma Thornton, Prif Weithredwr, Croeso Sir Benfro Nicky Williamson, Cyfarwyddwr y DU dros Gymru, Cymdeithas Broffesiynol Hunanddarparwyr y DU Zoë Hawkins, Prif Weithredwr, MWT Cymru (Twristiaeth Canolbarth Cymru) Mark Drakeford AS, Aelod Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, Llywodraeth Cymru Helen John, Dirprwy Gyfarwyddwr, Trwyddedu Llety Ymwelwyr, Llywodraeth Cymru Robbie Thomas, Pennaeth Trwyddedu Llety Ymwelwyr, Llywodraeth Cymru Dylan Hughes, Cwnsler Deddfwriaethol Cyntaf, Llywodraeth Cymru Emma Anderson, Cyfreithiwr, Llywodraeth Cymru

Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau canlynol dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad, a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol, ar wefan y Pwyllgor.

Cyfeirnod	Sefydliad
DTRVA 01	FSB Cymru (Ffederasiwn Busnesau Bach)
DTRVA 02	Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
DTRVA 03	Philip Caldwell
DTRVA 04	Unigolyn
DTRVA 05	Unigolyn
DTRVA 06	ScoutsCymru
DTRVA 07	Unigolyn
DTRVA 08	Martyn Brookes
DTRVA 09	Beach View Cottages
DTRVA 10	Torfaen Ltd
DTRVA 11	Electrical Safety First
DTRVA 12	Airbnb
DTRVA 13	Cymdeithas yr Iaith
DTRVA 14	Awaze
DTRVA 15	Sykes Holiday Cottages
DTRVA 16	Cymdeithas Broffesiynol yr Hunanarlwywyr, DU (Cymru)
DTRVA 17	Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad (CLA Cymru)
DTRVA 18	Travel Chapter
DTRVA 19	Y Clwb Carafanau a Chartrefi Modur
DTRVA 20	Cymdeithas Llety Tymor Byr (STAA) (I)
DTRVA 21	Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain
DTRVA 22	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)

Cyfeirnod	Sefydliad
DTRVA 23	Cymdeithas Llety Tymor Byr (STAA) (2)
DTRVA 24	Cymdeithas Hunanddarparwyr yr Alban Cynghrair Twristiaeth yr Alban
DTRVA 25	Twristiaeth Gogledd Cymru
DTRVA 26	Twristiaeth Canolbarth Cymru (MWT Cymru)
DTRVA 27	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
DTRVA 28	Propertymark
DTRVA 29	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
DTRVA 30	Undeb Amaethwyr Cymru (FUW)
DTRVA 31	Croeso Sir Benfro
DTRVA 32	Booking.com
DTRVA 33	Bythynnod Gwyliau Gorllewin Cymru
DTRVA 34	Cyngor Abertawe

Gwybodaeth ychwanegol

Teitl	Dyddiad
Awdurdod Cyllid Cymru	11 Tachwedd 2025
Cymdeithas Hunanddarparwyr yr Alban a Chynghrair Twristiaeth yr Alban	12 Tachwedd 2025
Undeb Amaethwyr Cymru (FUW)	14 Tachwedd 2025
Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg	18 Tachwedd 2025
Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg	27 Tachwedd 2025
Bythynnod Gwyliau Gogledd Cymru	27 Tachwedd 2025
Airbnb	28 Tachwedd 2025
Booking.com	28 Tachwedd 2025
MWT Cymru (Twristiaeth Canolbarth Cymru)	28 Tachwedd 2025
PASC UK (1)	28 Tachwedd 2025
PASC UK (2)	28 Tachwedd 2025
Rhentu Doeth Cymru	28 Tachwedd 2025